

laith fyw: dweud eich dweud

Canlyniadau'r ymarferiadau ymgynghori

Gorffennaf 2013



y ganolfan cynllunio iaith
welsh centre for language planning

ISBN digidol 978 1 4734 0441 0
WG20175
© Hawlfraint y Goron Hydref 2013

Cynnwys

1.	Crynodeb gweithredol	4
2.	Cefndir	9
3.	Yr holiadur ar-lein	11
4.	Crynodeb o drafodion y grwpiau trafod lleol	20
5.	Iaith fyw: Y Gynhadledd Fawr	29
6.	Cyfraniadau trwy ddulliau amrywiol eraill	38

Rhai sylwadau:

“I believe that the death of the Welsh language has been greatly exaggerated.”

“Mae pobl yn siarad Cymraeg pan maen nhw'n gweld fod yna bwrpas economaidd a chymdeithasol i siarad Cymraeg.”

“Rhaid dysgu pobl ‘pam’ y dylen nhw siarad Cymraeg yn ogystal â ‘sut’ i siarad Cymraeg.”

“A people's native language should never be allowed to die, and everyone world-wide should have access to it.”

1. Crynodeb gweithredol

1.1 Cymryd rhan

Derbyniwyd proses *laith fyw: dweud eich dweud* gyda chryn groeso gan y cyfranogwyr, gyda llawer yn mynegi eu gwerthfawrogiad o'r cyfle i gael cyfrannu i'r drafodaeth genedlaethol ar ddyfodol y Gymraeg.

Yn gyffredinol, mynegwyd ewyllys da tuag at Lywodraeth Cymru am ei bwriad i weithredu'n gadarnhaol o blaid y Gymraeg drwy ymateb yn adeiladol i ganlyniadau Cyfrifiad 2011. Mae hefyd yn amlwg fod y broses wedi codi disgwyliadau caredigion y Gymraeg y bydd y Llywodraeth a'i phartneriaid yn gweithredu'n fuan ac yn gadarn i sicrhau dyfodol ffyniannus i'r Gymraeg.

Mynegwyd croeso hefyd i'r bwriad i barhau gyda'r broses a chynnwys y cyhoedd yn helaethach wrth drafod pynciau polisi penodol. Roedd pobl a gyfrannodd i'r broses yn gweld hyn yn fan dechrau o ran cynnal deialog hirdymor gyda'r Llywodraeth ac yn gofyn am gyfleodd rheolaidd i gyfrannu at y drafodaeth.

1.2 Meysydd polisi

Yn gyffredinol, derbyniwyd fod strategaethau'r Llywodraeth ynghylch yr iaith Gymraeg ar y llwybr cywir. Fodd bynnag, roedd barn gadarn fod angen rhoi mwy o sylw i rai agweddau creiddiol, sef:

- ymateb i'r her a osodir i ddyfodol y Gymraeg gan symudoledd poblogaeth,
- datblygu gwell dealltwriaeth o'r cyswllt rhwng iaith ac economi a gweithredu ar sail hynny,
- marchnata gwerth y Gymraeg i bobl Cymru.

Gellir crynhoi llawer o'r drafodaeth gyfan yn nhermau'r gwirionedd sy'n wynebu pob iaith, sef fod yn rhaid i unrhyw iaith wrth ddibenion economaidd a chymdeithasol os yw i oroesi.

O ran gweithredu strategol o blaid y Gymraeg mynegwyd anniddigrwydd cyffredinol gyda diffyg gweledigaeth a gweithredu effeithiol gan awdurdodau lleol Cymru (heblaw Cyngor Gwynedd) i sicrhau ffyniant y Gymraeg.

1.3 Symudoledd poblogaeth

Roedd consensws mai symudoledd poblogaeth yw'r her gyfredol fwyaf i hyfywedd y Gymraeg a gwelwyd bod yr atebion i'r her honno ynghlwm â:

- pholisïau economaidd,
- pholisïau tai a chynllunio,
- pholisïau addysg, a
- pholisïau datblygu cymunedol.

1.4 Yr Economi

Materion economaidd oedd yn dod i'r brig fel blaenoriaethau gweithredu, gyda llawer yn nodi nad oedd sylw digonol wedi ei roi hyd yma i'r cyswllt rhwng yr iaith Gymraeg a materion economaidd. Roedd y themâu a grybwyllwyd yn cynnwys:

- Yr angen i gynnwys y Gymraeg yn strategol wrth gynllunio datblygiadau economaidd.
- Arwyddocâd sicrhau economi gref yng nghefn gwlad Cymru.
- Yr angen i ystyried datblygu ardaloedd twf economaidd sy'n rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg.
- Dylanwad gweithleoedd dwyieithog ar y farchnad lafur yn lleol o fewn economi sydd i raddau helaeth yn ddibynnol ar y sector cyhoeddus.
- Yr angen i ystyried y Gymraeg yn nhermau:
 - sgil ar gyfer y gweithle,
 - arf marchnata, a
 - rhan annatod o gynnyrch a gwasanaethau.
- Yr angen i asiantaethau byd gwaith a gyrfa wneud gwell ymdrech i hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil gwerthfawr ar gyfer gwaith ymysg disgyblion, rhieni a chyflogwyr.

1.5 Tai a chynllunio

Roedd dwy thema gyson yn codi wrth drafod materion tai a chynllunio:

- Yr angen i ddiwygio NCT 20 er mwyn cryfhau'r modd yr ystyrir y Gymraeg wrth drafod datblygiadau defnydd tir – gan gynnwys gweithdrefnau effeithiol i gynnal asesiadau effaith ieithyddol ystyrion.
- Yr angen i hwyluso a chefnogi pobl leol yn eu hymdrechion i brynu tai fforddiadwy iddyn nhw a'u teuluoedd ac i gael blaenoriaeth wrth bennu deiliadaethau tai cymdeithasol.

1.6 Marchnata'r Gymraeg

Mynegwyd yr awydd i weld Llywodraeth Cymru yn gwneud llawer mwy i farchnata'r Gymraeg ymhlith y boblogaeth yn gyffredinol er mwyn:

- gwrthsefyll pwysau diwylliannol anferthol y diwylliant Eingl-Americanidd,
- creu delwedd gyfoes o'r Gymraeg fel iaith fodern a rhyngwladol, a
- chodi hyder pobl Cymru yn y Gymraeg a'u defnydd ohoni.

1.7 Addysg

Cydnabyddir yn gyffredinol fod y system addysg yn gwbl greiddiol i barhad y Gymraeg o ran cynhyrchu siaradwyr ynghyd â chynnal a datblygu sgiliau. Ymhlith y themâu a gododd roedd yr angen i:

- ddatblygu ac ehangu mynediad i addysg cyfrwng Gymraeg,
- sicrhau dilyniant mewn addysg Gymraeg,

- adolygu'r modd yr addysgir Cymraeg fel ail iaith;
- sicrhau ethos ddwyieithog mewn ysgolion cyfrwng Saesneg,
- gosod ymwybyddiaeth iaith ar gwricwlwm pob ysgol,
- gwella'r cyswllt a wneir rhwng y Gymraeg a byd gwaith a gyrfa,
- gwella ansawdd a natur adnoddau addysgol Cymraeg,
- cryfhau'r cyswllt rhwng ysgol a chymuned o ran cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth.

1.8 Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg

Roedd awydd mawr i sicrhau mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg:

- yn gymdeithasol,
- yn y gwaith, ac
- wrth dderbyn gwasanaethau.

1.8.1 Yn gymdeithasol: roedd gwerthfawrogiad cyffredinol o'r gwaith a wneir gan y mudiadau Cymraeg traddodiadol. Cafwyd pwyslais ar ddatblygu cyfleoedd cymdeithasol i blant a phobl ifanc i ddefnyddio Cymraeg. At hynny, roedd awydd mawr mewn sawl tref mewn ardaloedd llai Cymraeg eu hiaith i sefydlu canolfannau Cymraeg mewn trefi marchnad allweddol, e.e. Hwlfordd ac Aberhonddu. Gwelwyd fod creu bwrlwm cymdeithasol Cymraeg yn allweddol i ddenu pobl o bob oed at y Gymraeg. Nodwyd fod angen grymuso pobl i weithredu'n lleol er mwyn sicrhau dyfodol y Gymraeg.

1.8.2 Yn y gwaith: roedd awydd i gynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith ac mae'r atebion a gafwyd i'r perwyl hynny mewn ymateb i'r holiadur (3.2.12) yn gosod model manwl o sut mae gwireddu hynny.

1.8.3 Gwasanaethau: roedd disgwyl mawr am gyhoeddi'r Safonau newydd o ran datblygu gwasanaethau Cymraeg. Ymysg y gwasanaethau blaenoriaeth roedd:

- gwasanaethau awdurdodau lleol yn gyffredinol,
- gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol,
- gwasanaethau brys,
- gwasanaethau hamdden a chwaraeon,
- gwasanaethau ieuenctid, a
- llyfrgelloedd cyhoeddus.

Mynegwyd awydd cryf i weld adrannau Llywodraeth Cymru yn arwain trwy esiampl drwy ddarparu mwy o wasanaethau Cymraeg.

1.9 Y Teulu

Roedd sicrhau cymdeithasoli ieithyddol drwy deuluoedd hefyd yn thema amlwg. Cafwyd canmoliaeth i waith y cynllun Twf a'r Mudiad Meithrin. Pwysleisiwyd yr angen i sicrhau cefnogaeth ymarferol i rieni i'w galluogi i gynorthwyo eu plant i ddatblygu eu rhuglder yn y Gymraeg ac i gyd-ddysgu gyda'r plant.

1.10 Y Cyfryngau

Roedd cytundeb cyffredinol fod y cyfryngau, yn eu hamrywiol ffyrdd, yn gwbl allweddol i barhad y Gymraeg yn yr 21ain ganrif. Roedd consensws ynglŷn â'r canlynol:

Teledu a radio:

- Nodwyd gwerthfawrogiad o gyfraniad a swyddogaeth allweddol S4C a Radio Cymru a'r angen i'w cynnal a'u datblygu;
- Nodwyd yr angen i amlhau sianeli radio a theledu Cymraeg er mwyn ehangu dewis;
- Nodwyd yr angen i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar sianeli radio a theledu Saesneg, e.e. Radio Wales, BBC Wales a radio masnachol leol

Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu:

- Nodwyd bod angen sicrhau fod y Gymraeg yn ddewis safonol ar feddalwedd cyfrifiadurol cyffredin
- Nodwyd bod angen cynyddu'r cynnwys Cymraeg sydd ar gael ar y We, gan gynnwys:
 - adnoddau hamdden ac adloniant,
 - gwybodaeth a newyddiaduraeth, ac
 - adnoddau addysgol.

Technoleg newydd:

- Nodwyd bod angen sicrhau bod y Gymraeg ar gael ar bob llwyfan a chyfrwng technolegol – i'r graddau mae hynny'n bosibl.

At hynny, nodwyd bod angen hyrwyddo a marchnata'r hyn sydd ar gael eisoes yn llawer mwy eang ac effeithiol.

Nodwyd hefyd fod sicrhau a datblygu lle'r Gymraeg yn y maes cyfryngol yn fodd i gadw a chynnwys siaradwyr Cymraeg (ac eraill) sy'n byw ar draws y byd yn rhan o gymuned iaith ryngwladol o siaradwyr Cymraeg.

1.11 Cymraeg i oedolion

Roedd cyfleoedd i ddysgu Cymraeg fel oedolion hefyd yn flaenoriaeth, gyda nifer helaeth yn mynegi awydd i ddysgu ond yng qweld rhwystrau amrywiol rhag gwneud hynny. Ymhlith y themâu crybwyllwyd yr awydd am:

- wersi rhatach,
- gwersi sy'n canolbwyntio ar sgiliau llafar anffurfiol,
- gwersi sydd ynghlwm wrth y gweithle,
- gwell adnoddau i ddysgu Cymraeg, gan gynnwys adnoddau ar-lein a rhaglenni teledu.

1.12 Cyllid ac adnoddau

Un thema gyffredinol, a chwbl allweddol, a fu'n rhedeg drwy'r holl gyfraniadau ym mhob cyfrwng oedd mater adnoddau. Nodwyd droeon, fod angen adnoddau digonol, gan gynnwys adnoddau cyllidol digonol, i weithredu'n effeithiol a dwyn y maen i'r wal. Cafwyd galwadau cyson gydol y broses ar i'r Llywodraeth gynyddu ei buddsoddiad ariannol yn y Gymraeg er mwyn sicrhau gweithredu effeithiol.

2. Cefndir

2.1 Cefndir polisi

Mae pedair dogfen allweddol yn gosod llwyfan i bolisiâu a gweithgareddau Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yng nghyswllt y Gymraeg:

- Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (2010),
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011,
- Iaith fyw: iaith byw, Strategaeth y Gymraeg 2012-17 (2012),
- Mwy na Geiriau, Fframwaith Strategol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol (2012).

Mae'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a 'Mwy na Geiriau' yn gosod rhaglen o amcanion a gweithgareddau ar gyfer datblygu'r Gymraeg ym maes Addysg a meysydd lechyd a Gofal.

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fu'n sail i sefydlu swyddogaeth Comisiynydd y Gymraeg ynghyd â'r Safonau cenedlaethol arfaethedig ynghylch y Gymraeg.

'Iaith fyw: iaith byw' yw'r ddogfen polisi arweiniol sy'n rhoi llwyfan i amcanion a gweithgareddau Llywodraeth Cymru o ran y Gymraeg. Mae'r ddogfen yn nodi chwech maes strategol:

1. Y teulu
2. Plant a phobl ifanc
3. Y gymuned
4. Y gweithle
5. Gwasanaethau Cymraeg
6. Y seilwaith

Ffynhonnell arall o wybodaeth ddefnyddiol sy'n llywio polisi Llywodraeth Cymru ynghylch y Gymraeg yw canlyniadau Cyfrifiad 2011. Cyhoeddi gwybodaeth ynghylch y canlyniadau hynny fu'r sbardun ar gyfer y broses hon, sef *iaith fyw: dweud eich dweud*.

2.2 Cefndir y broses

Gyda chyhoeddi canlyniadau cyntaf Cyfrifiad 2011 ynghylch yr iaith Gymraeg yn Rhagfyr 2012 a Ionawr 2013, a hynny yn dangos cwymp yn nifer a chanran o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, cyhoeddodd y Prif Weinidog, y byddai'n cynnal proses o ymgynghori cyhoeddus a fyddai'n rhoi cyfle i bobl Cymru roi eu barn ar yr hyn dylid ei wneud gan Lywodraeth Cymru ac eraill er mwyn sicrhau dyfodol y Gymraeg.

Gyda'r bwriad hynny, felly, fe gynhaliwyd nifer o weithgareddau yn ystod mis Mehefin 2013 dan yr enw 'iaith fyw: dweud eich dweud'.

Trefnwyd nifer o ddigwyddiadau er mwyn casglu barn y cyhoedd, gan gynnwys:

- 8 o grwpiau trafod lleol ar hyd a lled Cymru,

- 13 o grwpiau trafod ymysg grwpiau o blith partneriaid y Llywodraeth,
- cyfle i'r cyhoedd a sefydliadau ymateb i holiadur ar-lein, a
- chyfleoedd amrywiol i gyfrannu sylwadau trwy nifer o gyfryngau cyfathrebu, hen a newydd.

Daeth y gweithgaredd hynny i benllanw gyda chynhadledd a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Aberystwyth ar 4 Gorffennaf 2013 dan y teitl 'Iaith fyw: Y Gynhadledd Fawr'. Daeth 160 o gynrychiolwyr amrywiol at ei gilydd yno yng nghwmni'r Prif Weinidog i drafod agweddau ar ddyfodol y Gymraeg. Roedd cyfle yno hefyd i eraill wyllo, gwrandao a chyfrannu drwy gyfryngau cyfathrebu.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig trosolwg o'r hyn a drafodwyd ac a awgrymwyd gan gyfranogwyr yn ystod y broses hon.

Hwyluswyd y broses gan staff Llywodraeth Cymru, Orchard Media Ltd. a IAITH: y ganolfan cynllunio iaith.

3. Yr holiadur ar-lein

3.1 Proffil yr ymatebwyr

3.1.1 Yr atebion

Cafwyd ymateb da iawn i'r holiadur ar-lein. Ymatebodd 2,393 o bobl i'r holiadur cyn 18 Gorffennaf 2013.

Roedd y nifer a atebodd bob cwestiwn yn amrywio gyda 1,779 yn ateb cwestiwn 1 ar yr holiadur, sef: *Beth sy'n cynnal a chryfhau'r Gymraeg yn eich ardal chi?*. Erbyn cwestiwn 10, ar ddiwedd yr holiadur, 615 oedd wedi ateb y cwestiwn hwnnw. Ar gyfartaledd cafwyd 1,200 ateb i bob cwestiwn.

3.1.2 Man trigo'r ymatebwyr

Cafwyd ymateb o bob rhan o Gymru a thu hwnt ond diddorol sylwi fod pumed rhan yr atebion (21.1%) wedi eu cyflwyno gan unigolion o Gaerdydd.

Lle ydych chi'n byw?	%	Nifer
Blaenau Gwent	0.7%	17
Pen-y-bont ar Ogwr	1.8%	44
Caerffili	2.8%	66
Caerdydd	21.1%	504
Sir Gaerfyrddin	6.2%	148
Ceredigion	8.1%	193
Conwy	3.8%	91
Sir Ddinbych	4.2%	101
Sir y Fflint	6.0%	143
Gwynedd	7.2%	172
Ynys Môn	2.6%	62
Merthyr Tudful	2.3%	54
Sir Fynwy	1.3%	30
Castell-nedd Port Talbot	1.2%	28
Casnewydd	1.9%	45
Sir Benfro	1.5%	35
Powys	4.3%	103
Rhondda Cynon Taf	4.6%	109
Abertawe	5.1%	122
Bro Morgannwg	2.6%	63
Torfaen	1.2%	29
Wrecsam	4.9%	117
Tu hwnt i Gymru	4.8%	116
	Atebion	2392
	Heb ateb	1

Yn ddiddorol, roedd ymatebwyr o'r tu hwnt i Gymru yn cynnwys unigolion o wledydd mor amrywiol â Lloegr, UDA, Awstralia, Canada, De Affrica, Israel, Siapan a Kazakstan.

3.1.3 Sgiliau ieithyddol yr ymatebwyr

Roedd dros hanner yr ymatebwyr (55.7%) yn disgrifio eu hunain fel siaradwyr Cymraeg.

Disgrifiad o sgiliau ieithyddol yr ymatebydd	%	Nifer
Rwy'n siaradwr Cymraeg	55.7%	1324
Rwy'n ddysgwyr Cymraeg	21.1%	502
I'm non Welsh-speaking	23.2%	552
	Atebion	2378
	Heb ateb	15

3.1.4 Oedran yr ymatebwyr

Roedd dros hanner yr ymatebwyr (52.5%) yn oedolion ifanc rhwng 25-44 oed; ac roedd 88.2% yn oedolion rhwng 25-64 oed.

Grŵp oedran	%	Nifer
5-15	0.8%	19
16-24	6.1%	145
25-44	52.5%	1248
45-64	35.7%	850
65 +	4.9%	116
	Atebion	2378
	Heb ateb	15

3.1.5 Natur yr atebion

Roedd mwyafrif llethol yr atebion yn gefnogol i'r Gymraeg ac yn cynnig syniadau adeiladol ar gyfer ei hyrwyddo a chryfhau ei defnydd. Er hynny, cafwyd lleiafrif bychan o leisiau yn gwrthwynebu unrhyw ymdrech gan y wladwriaeth – na neb arall – i hyrwyddo'r Gymraeg. Barn gyffredin ymysg y garfan hon oedd y dylid gadael y Gymraeg i'w ffawd, ei bod yn draul ar arian y trethdalwr ac y dylid derbyn fod y Saesneg yn *lingua franca* fyd-eang a dylid ei derbyn fel unig iaith cyfathrebu swyddogol a chyhoeddus yng Nghymru. Gan mai ymgais i ganfod barn am ymdrechion i gynnal a chryfhau'r Gymraeg fu'r broses hon, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, llais y mwyafrif llethol o atebwyr a oedd wedi ymateb yn gadarnhaol a grynhoir isod.

3.2 Yr Atebion

3.2.1 Cwestiwn 1: Beth sy'n cynnal a chryfhau'r Gymraeg yn eich ardal chi?

Y prif themâu a ymddangosodd yma oedd:

- rôl allweddol mudiadau Cymraeg traddodiadol a'r mentrau iaith;
- rôl ganolog addysg cyfrwng Cymraeg;

- yr angen i sicrhau bod y Gymraeg yn rhan normal o fywydau beunyddiol pobl o fewn cymunedau a rhwydweithiau lleol;
- yr angen i sicrhau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ac yn y gwaith;
- yr angen i sicrhau bod gwersi Cymraeg ar gael yn hawdd i bawb a bod adnoddau a gweithdrefnau cefnogol ar gael i ddysgwyr;
- yr angen i gyrff cyhoeddus, yn enwedig awdurdodau lleol, fabwysiadu polisiau cadarn o blaid y Gymraeg.

3.2.2 Cwestiwn 2: Beth yw'r heriau sy'n wynebu'r iaith Gymraeg yn eich ardal chi?

Pedair thema fawr a amlygwyd yn yr atebion i'r cwestiwn hwn:

- Yn siroedd y gogledd a'r gorllewin yr her fwyaf o ddigon a nodwyd oedd yr heriau a osodir gan symudoledd poblogaeth. Roedd y mewnlifiad o unigolion di-Gymraeg i'r ardaloedd traddodiadol Gymraeg a'r allfudo o bobl ifanc o'r union gymunedau hynny yn cael sylw cyson.
- At hynny, roedd y berthynas rhwng iaith ac economi yn cael ei chrybwyll fel rhan o'r darlun hynny.
- Yn siroedd y dwyrain, diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac i ddysgu Cymraeg oedd y themâu amlwg.
- Ar draws Cymru, heblaw am Wunedd, roedd diffyg cefnogaeth awdurdodau lleol yn thema gyffredin amlwg.

Y themâu cyffredinol a nodwyd o ran yr heriau i'r Gymraeg oedd:

- symudoledd poblogaeth;
- diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg – yn enwedig tu allan i'r ysgolion;
- diffyg hyder siaradwyr Cymraeg;
- apathi a diffyg diddordeb yn y boblogaeth yn gyffredinol;
- gwendidau yn y system addysg o ran datblygu sgiliau Cymraeg;
- diffyg cefnogaeth ddigonol gan awdurdodau lleol;
- diffyg gwasanaethau Cymraeg;
- diffyg gwerth economaidd i'r Gymraeg;
- diffyg cefnogaeth i ddysgwyr ddod yn rhugl;
- diffyg trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd;
- heriau o ran polisiau tai a chynllunio; a
- diffyg cyllid.

3.2.3 Cwestiwn 3: Sut mae annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd?

Y prif themâu a ymddangosodd yma oedd yr angen i:

- newid agweddau pobl Cymru at y Gymraeg;
- cynnal ac ymestyn Twf a chefnogi'r Mudiad Meithrin;
- cefnogi rhieni yn ymarferol i annog eu plant i siarad Cymraeg;
- sicrhau cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg fel teulu;

- darparu mwy o wersi Cymraeg i rieni – am ddim o bosibl;
- datblygu a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg;
- sicrhau teledu, radio, cerddoriaeth, llyfrau ac adnoddau deniadol;
- cysylltu'r Gymraeg â manteision economaidd.

3.2.4 Cwestiwn 4(a): Sut mae cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc a chryfhau'r ymwybyddiaeth sydd ganddyn nhw am werth y Gymraeg trwy'r gyfundrefn addysg?

Y prif themâu a ymddangosodd yma oedd yr angen i:

- wella safon addysgu'r Gymraeg fel pwnc – gan gynnwys adolygu Cymraeg ail iaith;
- sicrhau cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r dosbarth;
- cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg;
- cynyddu cyfleoedd i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg;
- dysgu hanes y Gymraeg a hanes Cymru yn fwy trwyadl mewn ysgolion;
- dysgu manteision dwyieithrwydd i ddisgyblion ysgol a lle'r Gymraeg yn y byd modern;
- sicrhau gwell adnoddau ar-lein i ddisgyblion ac athrawon;
- amlygu arwyddocâd y Gymraeg ym myd gwaith a gyrfa;
- cynnwys rhieni yn fwy wrth ddatblygu sgiliau eu plant.

3.2.5 Cwestiwn 4(b): Sut mae cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc a chryfhau'r ymwybyddiaeth sydd ganddyn nhw am werth y Gymraeg trwy weithgareddau eraill?

Y prif themâu a ymddangosodd yma oedd yr angen i:

- gynyddu cyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio'r Gymraeg trwy:
 - weithgareddau canolfannau hamdden, nofio ac ati,
 - gweithgareddau chwaraeon,
 - gweithgareddau theatr a'r celfyddydau,
 - gweithgareddau ar ôl ysgol;
- sicrhau rhaglenni apelgar ar S4C;
- hyrwyddo cerddoriaeth gyfoes Gymraeg a gwyliau Cymraeg;
- cynyddu cyfleoedd gofal plant Cymraeg;
- hyrwyddo technoleg newydd cyfrwng Cymraeg, e.e. rhwydweithiau cymdeithasol, Y We, gêmâu cyfrifiadurol, 'ap'iau ac ati;
- hyrwyddo tripliau cyfnewid de/gogledd
- cefnogi mudiadau ieuencid Cymraeg fel yr Urdd a C.Ff.I.;
- gwella'r cyswllt â byd gwaith, e.e. cynllun Llwyddo'n Lleol;
- marchnata'r Gymraeg drwy gyfrwng enwogion;
- cael hwyl a dal dychymyg pobl ifanc.

3.2.6 Cwestiwn 5: Sut mae cynyddu a gwella'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg drwy dechnoleg gwybodaeth a'r cyfryngau, e.e. teledu, radio, llyfrau a chylchgronau, y rhynggrwyd, gwasanaethau ar-lein, ffônau symudol a theclynnau eraill, cyfryngau cymdeithasol, ayyb?

Y prif themâu a syniadau a ymddangosodd yma oedd yr angen i:

- ddarparu mwy o farchnata ac addysgu ynghylch y dechnoleg Gymraeg sydd eisoes ar gael;
- sefydlu gwefan gyfeiriol sy'n eich arwain at ddigwyddiadau Cymraeg;
- cydnabod bod TG yn rhoi mynediad byd-eang i'r Gymraeg;
- datblygu gwasanaethau teledu Cymraeg o ran:
 - gwella darpariaeth S4C,
 - cynyddu sianeli Cymraeg,
 - datblygu mwy o Gymraeg ar sianeli Saesneg Cymru;
- datblygu gwasanaethau radio Cymraeg o ran:
 - gwella darpariaeth Radio Cymru,
 - cynyddu sianeli radio Cymraeg – gan gynnwys radio lleol,
 - datblygu mwy o Gymraeg ar sianeli Saesneg Cymru;
- cynyddu presenoldeb y Gymraeg ar bob llwyfan TGCh, e.e.:
 - gwefannau,
 - rhwydweithiau cymdeithasol,
 - gêmâu cyfrifiadurol,
 - 'ap'iau,
 - ffônau symudol – gan gynnwys darogan testun;
- datblygu deunydd darllen ar-lein:
 - mwy o newyddiaduraeth ar-lein – gan gynnwys cylchgrawn i ieuenctid,
 - datblygu'r ddarpariaeth ar-lein i ddysgwyr,
 - e-lyfrau,
 - adnoddau addysgol;
- datblygu rôl llyfrgelloedd cyhoeddus wrth hyrwyddo technoleg Gymraeg;
- sicrhau mwy o Gymraeg mewn papurau rhanbarthol.

3.2.7 Cwestiwn 6: Sut mae cynyddu a gwella'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg ar gyfer pobl sy'n byw yn eich ardal chi?

Y prif themâu a syniadau a godwyd yn yr atebion i'r cwestiwn hwn oedd:

- sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cyflawni'r gofynion cyfredol sydd arnynt o ran darparu gwasanaethau Cymraeg;
- sicrhau bod y Safonau arfaethedig yn cryfhau'r ddarpariaeth hynny;
- codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau cyfredol – gan gynnwys bathodynau ac arwyddion cyfeiriol;
- annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r gwasanaethau, e.e. trwy gynlluniau megis 'Dechrau pob Sgwrs yn Gymraeg' a '*Crowd-sourcing*';
- sicrhau bod staff derbynfydd a staff rheng-flaen yn ddwyieithog;
- cynnal statws gweledol y Gymraeg;
- hyrwyddo cyfleoedd i ddysgu Cymraeg yn y gweithle – gan hyrwyddo'r cysyniad o gwrteisi ieithyddol;
- datblygu gweithleoedd dwyieithog a gweinyddiaeth fewnol Gymraeg, e.e. Cyngor Ceredigion;
- datblygu 'ap' gwasanaethau Cymraeg lleol;
- sefydlu Coleg Gwasanaeth Sifil Cymreig.

O ran y gwasanaethau a'r sectorau a nodwyd a oedd o ddiddordeb penodol roedd y canlynol:

- gwasanaethau awdurdodau lleol yn gyffredinol,

- gwasanaethau hamdden a chwaraeon,
- gwasanaethau ieuenctid,
- gwasanaethau iechyd a gofal,
- yr heddlu a'r gwasanaethau brys,
- llyfrgelloedd cyhoeddus,
- banciau a siopau'r stryd fawr,
- Swyddfa'r Post,
- meithrinfeydd plant.

3.2.8 Cwestiwn 7a: Sut mae cryfhau sefyllfa'r Gymraeg yn eich ardal leol chi o ran yr economi?

Y prif themâu a syniadau a godwyd mewn ateb i'r cwestiwn hwn oedd yr angen i:

- godi gwerth y Gymraeg o fewn yr economi fel:
 - sgil ar gyfer gwaith,
 - arf marchnata, a
 - rhan allweddol o'r cynnyrch a/neu'r gwasanaeth;
- hyrwyddo manteision economaidd y Gymraeg;
- sicrhau economi ffyniannus yng nghefn gwlad Cymru – gan gynnwys y sector amaeth a busnesau bach a chanolig;
- sicrhau datblygiad o ran gweithleoedd dwyieithog a gweinyddu mewnol dwyieithog mewn llywodraeth leol;
- cysylltu cynlluniau datblygu economaidd lleol â'r Gymraeg, e.e. Castell Aberteifi;
- datblygu ardaloedd menter sy'n rhoi gwerth ar y Gymraeg – ar lefel ardal a/neu stryd fawr;
- datganoli swyddi cyhoeddus i'r gogledd a'r gorllewin;
- diwygio polisiâu pwrcasu'r sector cyhoeddus i gynnwys amodau iaith cadarnach;
- hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y maes twristiaeth – fel arf marchnata (USP) ac fel rhan o'r cynnyrch;
- talu premiwm ar gyfer sgiliau Cymraeg at ddibenion gwaith;
- darparu gwasanaeth cynghori busnes cyfrwng Cymraeg – gan gynnwys cynnig grantiau i fusnesau lleol ddatblygu agweddau ar ddwyieithrwydd;
- hyrwyddo mentergarwch ymhlith siaradwyr Cymraeg;
- datblygu mentrau iaith i fod yn 'fentrau iaith a gwaith';
- deddfu ymhellach ar gyfer cryfhau gwasanaethau Cymraeg cyrff yn y sector preifat.

3.2.9 Cwestiwn 7b: Sut mae cryfhau sefyllfa'r Gymraeg yn eich ardal leol chi o ran gwasanaethau a chyfleusterau lleol?

Ymddengys nad oedd ystyr y cwestiwn hwn, a'i ffocws lleol, yn eglur i bawb. Fodd bynnag, ymysg y prif gynigion a gafwyd roedd yr angen i:

- sicrhau canolfannau cymdeithasol Cymraeg o fewn trefi – yn enwedig yn y dwyrain – a allai hefyd weithredu fel canolfannau gwybodaeth am y Gymraeg yn lleol;
- cyhoeddi cyfeiriaduron o fusnesau Cymraeg lleol;
- annog busnesau lleol i ddefnyddio'r Gymraeg;
- cefnogi neuaddau pentref;
- cefnogi mudiadau a grwpiau cymunedol;

- hyrwyddo cyfieithu ar y pryd mewn digwyddiadau lleol;
- sicrhau gwasanaeth Cymraeg gan archfarchnadoedd.

Ymysg y gwasanaethau cyhoeddus a gafodd sylw fel gwasanaethau blaenoriaeth roedd:

- gwasanaethau iechyd sylfaenol,
- ysbytai,
- gwasanaethau cymdeithasol,
- llyfrgelloedd cyhoeddus,
- gwasanaethau hamdden, a
- gwasanaethau llywodraeth leol yn gyffredinol.

3.2.10 Cwestiwn 7c: Sut mae cryfhau sefyllfa'r Gymraeg yn eich ardal leol chi o ran polisïau tai a chynllunio?

Y prif themâu a syniadau a godwyd mewn ateb i'r cwestiwn hwn oedd:

- diwygio canllawiau NCT 20;
- yr angen i asesu effaith datblygiadau tai a datblygiadau defnydd tir eraill ar hyfywedd y Gymraeg yn lleol;
- yr angen am dai fforddiadwy a chynlluniau i gynorthwyo pobl ifanc i brynu tai, e.e. drwy gymorth morgeisi neu amodau Adran 106;
- sicrhau bod cyfleusterau cymdeithasol priodol yn cael eu datblygu law yn llaw â stadau tai mawrion;
- rhoi mwy o lais i bobl leol mewn materion cynllunio;
- rhoi blaenoriaeth i bobl leol wrth bennu deiliadaeth tai cymdeithasol;
- cyfyngu ar ddatblygu mewn ardaloedd penodol;
- codi trethi ar ail gartrefi;
- gosod dyletswydd ar Barciau Cenedlaethol i hyrwyddo'r Gymraeg;
- sefydlu Arolygaeth Gynllunio Gymreig fyddai yn rhoi'r galw lleol am dai o flaen gofynion datblygwyr;
- hyrwyddo gosod enwau Cymraeg ar lefydd, strydoedd a stadau;
- cyflwyno Pecynnau Croeso i rai sy'n symud i ardaloedd Cymraeg eu hiaith er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg;
- cyfyngu ar hawliau preswyl mewn parciau carafanau.

3.2.11 Cwestiwn 7ch: Sut mae cryfhau sefyllfa'r Gymraeg yn eich ardal leol chi drwy ddulliau eraill?

Rhai o'r syniadau mwyaf gwreiddiol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn oedd:

- galluogi pobl i weithredu yn lleol yn nhermau cynllunio iaith a datblygu arweinyddiaeth leol i alluogi pobl i wneud hynny;
- sefydlu ardaloedd adfywio iaith;
- sicrhau gwaddol cadarn yn dilyn ymweliadau'r Eisteddfod Genedlaethol;
- datblygu mwy o wyliau cymunedol dwyieithog;
- cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg achlysurol a glywir yn gyhoeddus;
- meithrin balchder cyhoeddus yn y Gymraeg;
- estyn allan yn fwy creadigol at y di-Gymraeg;
- cynyddu'r Gymraeg ar radio masnachol;

- cyfrifo'n well faint o siaradwyr Cymraeg sydd drwy'r Deyrnas Gyfunol;
- mwy o gydnabyddiaeth i siaradwyr Cymraeg tramor a chryfhau'r cyswllt rhwng cymdeithasau Cymraeg o amgylch y byd.

3.2.12 Cwestiwn 8. Sut mae cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gweithleoedd?

Roedd cynigion yr ymatebwyr wrth ymateb i'r cwestiwn hwn yn fanwl a chynhwysfawr, gan gynnwys:

- sicrhau arweiniad polisi clir ar yr hawl i ddefnyddio Cymraeg yn y gwaith ac arweinyddiaeth gadarn gan uwch reolwyr i'w hyrwyddo ac annog ei defnydd;
- sicrhau bod modd adnabod unigolion sy'n siarad Cymraeg drwy wahanol ddulliau gweledol a thechnolegol;
- darparu rhaglen o hyfforddiant a fyddai'n cynnwys:
 - hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith,
 - gwersi dysgu'r Gymraeg – am ddim,
 - gwersi gloywi iaith,
 - adnoddau cefnogol i ddysgwyr,
 - gwasanaeth mentoriaid a 'buddies' iaith,
 - cyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio Cymraeg;
- sicrhau prif-ffrydio'r cyfleoedd uchod i gynlluniau datblygu proffesiynol prif-ffrwd;
- gweithredu Strategaeth Sgiliau Iaith gyfansawdd i adnabod a chynllunio sgiliau Cymraeg o fewn y gweithlu;
- sicrhau argaeledd meddalwedd Cymraeg cefnogol;
- sicrhau gwasanaeth cyfieithu cefnogol;
- sicrhau gwasanaethau Adnoddau Dynol dwyieithog o fewn sefydliadau;
- gwobrwyo a dathlu cynnydd;
- annog defnydd achlysurol o'r Gymraeg;
- cymryd pob cyfle i ddathlu'r Gymraeg a Chymreictod;
- sicrhau bod mwy o sefydliadau yn gweinyddu yn y Gymraeg o dan y Safonau arfaethedig;
- defnyddio'r Gymraeg gyda hiwmor a hwyl.

3.2.13 Cwestiwn 9: Sut mae ysbrydoli a chefnogi mwy o bobl i ddysgu Cymraeg ac i ddod yn rhugl?

Ymysg y prif bwyntiau a wnaed mewn ymateb i'r cwestiwn hwn oedd yr angen am:

- well darpariaeth ar gyfer dechrau dysgu yn ifanc;
- gwersi Cymraeg mwy anffurfiol gyda'r pwyslais ar siarad Cymraeg;
- gwersi rhatach neu am ddim;
- ymgyrch farchnata ac anogaeth eang a chyson;
- mwy o ddeunydd dysgu ar-lein;
- mwy o raglenni teledu deniadol i ddysgwyr;
- gwella'r cyfraddau llwyddo ar ôl Lefel Sylfaen;
- canolbwyntio ar ddysgu yn y gweithle yn hytrach nag yn y gymuned;
- hyfforddi a chynghori siaradwyr Cymraeg sut i gefnogi dysgwyr yn effeithiol;
- cynorthwyo rhieni i ddysgu Cymraeg – a datblygu darpariaeth mwy hyblyg i rieni sy'n gweithio;

- sefydlu Canolfannau Cymraeg ym mhob ardal ble y gall pobl gwrdd i ddefnyddio'r iaith yn gymdeithasol;
- defnyddio enwogion yn anogaeth – gan gynnwys defnyddio Derek Brockway fel Llysgennad dros ddysgwyr y Gymraeg;
- dysgu gwersi rhyngwladol, e.e. o Wlad y Basg.

3.2.14 Cwestiwn 10: Sylwadau pellach

Cafwyd nifer o sylwadau pellach, llawer yn ategu neu'n ehangu ar bwyntiau a wnaed ynghynt yn yr holiadur.

Fodd bynnag, mae'n werth nodi fod nifer arwyddocaol iawn o gyfranogwyr yn mynegi eu diolch i Lywodraeth Cymru am gynnal yr holiadur, gan ddymuno'n dda i'r Llywodraeth yn y dasg o'i blaen ac yn edrych ymlaen yn obeithiol at weld gweithredu cadarn maes o law.

4. Crynodeb o drafodion y grwpiau trafod lleol

4.1 Y grwpiau

Cynhaliwyd 21 grŵp trafod lleol fel rhan o'r broses rhwng 21 Mai a 1 Gorffennaf 2013.

Gydag arweiniad gan staff *IAITH: y ganolfan cynllunio iaith*, cynhaliodd staff Llywodraeth Cymru sesiynau gyda grwpiau o blith partneriaid Uned y Gymraeg Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:

- Bwrdd Syr IfanC, Urdd Gobaith Cymru
- Pwyllgor Llywio Cynllun Gweithredu Iaith Dyffryn Clwyd
- Grŵp Cymraeg i Oedolion ym Merthyr Tudful
- Grŵp Cymraeg i Oedolion yn Ninbych
- Merched y Wawr, Cangen Y Sarnau
- Fforwm Iaith Merthyr Tudful
- Pwyllgor Gwaith C.Ff.I. Meirionydd
- Fforwm Iaith Ceredigion
- Pwyllgor Rheoli Menter Gorllewin Sir Gâr
- Grŵp o ddisgyblion ysgolion Cymraeg, Caerdydd – drwy Urdd Gobaith Cymru
- Grŵp cymunedol ym Mrynaman, C.G.I. Aman Tawe
- Grŵp cymunedol yn Tŷ-croes
- Grŵp o ddisgyblion yn Ysgol Gartholwg

Ar gais y Llywodraeth cynhaliwyd grwpiau trafod gan IAITH yn y lleoliadau canlynol gyda chynrychiolwyr yn cael eu gwahodd ar draws ystod o grwpiau cymdeithasol amrywiol o fewn yr ardaloedd:

- | | |
|---------------|--------------|
| • Caernarfon | • Abergwaun |
| • Talysarn | • Pontyberem |
| • Wrecsam | • Aberhonddu |
| • Machynlleth | • Pont-y-pŵl |

Daeth rhwng 12 ac 25 o bobl i'r grwpiau – dros 400 o unigolion – a bu trafodaethau brwd a diddorol. Defnyddiwyd cwestiynau safonol yr holiadur ar-lein fel fframwaith ar gyfer y trafod hynny. Bu cryn drafod ar bob cwestiwn heblaw am gwestiwn 2.6 ynghylch defnyddio'r Gymraeg mewn gweithleoedd. Barnwyd fod y cysyniad hynny, fel y mae'n cael ei adnabod gan gynllunwyr iaith a rheolwyr sefydliadau, yn un braidd yn ddieithr i rai y tu allan i'r cylchoedd hynny.

4.2 Y Prif Themâu

Fodd bynnag, o ran y prif themâu a amlygwyd, nodwyd mae'r canlynol yw'r prof heriau sy'n wynebu'r Gymraeg:

- newidiadau cymdeithasol a symudoledd poblogaeth;
- materion ynghylch yr economi a thai;
- diffyg hyder, hyfedredd a defnydd;
- cyrhaeddiad eang a dylanwad y diwylliant Eingl-Americanaidd cyfryngol;
- diffyg gweledigaeth a chynllunio strategol.

O ran yr hyn sy'n cynnal a chryfau'r Gymraeg yn lleol rhestrwyd nifer o bethau dan y themâu canlynol:

- Economi sy'n rhoi gwerth ar y Gymraeg.
- Addysg cyfrwng Cymraeg.
- Cyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Sefyllfaoedd lle mae'r Gymraeg yn 'norm' cymdeithasol di-gwestiwn a digymell.
- Ymlyniad unigolion a grwpiau at y Gymraeg.

Yn fyr, gellir crynhoi'r consensws, yn y farn fod y Gymraeg yn ffynnu pan mae pobl yn gweld pwrpas economaidd a chymdeithasol iddi. Hynny yw'r her ganolog yn ôl y grwpiau trafod lleol.

4.3 Beth sy'n cynnal a chryfau'r Gymraeg yn eich ardal chi?

4.3.1 Economi sy'n rhoi gwerth ar y Gymraeg:

- Argaeledd gwaith – yn enwedig gwaith sy'n rhoi gwerth ar y Gymraeg ac ystod o waith amrywiol.
- Polisi iaith cadarn Gwynedd, Prifysgol Bangor a chyrff cyhoeddus eraill yn yr ardal honno – o ran cyflogaeth, gwasanaethau a gweithrediad – yn cael effaith amlwg ar hyfywedd y Gymraeg yn yr ardal.
- Ar wahân i'r sector cyhoeddus mae'r sector amaeth, y sector adeiladu a chrefftwyr hunangyflogedig yn beuoedd Cymraeg arwyddocaol mewn sawl ardal.
- Busnesau bach lleol sy'n defnyddio'r Gymraeg yn creu cryn argraff a dylanwad.
- Mae'r cyfle i fyw a gweithio yn Gymraeg (e.e. ar lannau Menai neu Aberystwyth) yn denu unigolion Cymraeg i fyw yno o ardaloedd eraill. Angen ardaloedd twf yn y gorllewin sy'n rhoi gwerth ar y Gymraeg.
- Unigolion sy'n penderfynu byw a gweithio mewn ardaloedd 'traddodiadol' Gymraeg.

4.3.2 Addysg cyfrwng Cymraeg:

- Polisi addysg Cymraeg cadarn yn asgwrn cefn ym mhob ardal.
- Cylchoedd Meithrin a grwpiau Ti a Fi yn medru bod yn sail gwerthfawr i gynnal dewisiadau rhieni ynghylch addysg Gymraeg.
- Addysg trochi llwyddiannus.
- Ysgolion sy'n cynnal digwyddiadau allgyrsiol sy'n estyn allan i'r gymdeithas leol gyfan.
- Trefn Cymraeg i Oedolion effeithiol yn hanfodol. Unigolion brwd sydd wedi llwyddo ddysgu Cymraeg yn ysbrydoliaeth.

4.3.3 Cyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio'r Gymraeg:

- Bwrlwm cymdeithasol Cymraeg.

- Y defnydd cyhoeddus o'r Gymraeg mewn digwyddiadau cyhoeddus a gwyliau lleol.
- Nifer a dwysedd siaradwyr Cymraeg, yn amlwg, yn cynyddu'r cyfleoedd.
- Cyfraniad gwerthfawr y mudiadau Cymraeg traddodiadol ym mhob rhan o Gymru – Urdd Gobaith Cymru, Merched y Wawr, Cymrodorion, cymdeithasau diwylliannol, capeli ac eglwysi ac ati.
- Rhai cyfleoedd cymdeithasol newydd a blaengar yng Nghaerdydd – clwb rygbi penodol Gymraeg, tafarndai Cymreig, Bragdy'r Beirdd, gwaith cymunedol gan brifysgolion y ddinas.
- Y cyfle i ddefnyddio Cymraeg mewn cyd-destun hamdden cyffredinol megis clwb rygbi, neuadd bentref neu ganolfan hamdden yn ganolog i fywyd cymdeithasol Cymraeg.
- Yn yr ardaloedd dwyreiniol (a Phenfro) mae galw amlwg am Ganolfannau Cymraeg penodol (tebyg i Canolfan Soar neu Dŷ Tawe) fel ffynhonnell gwybodaeth ac adnoddau a lle i gwrdd yn gymdeithasol a diwylliannol. Rhain hefyd yn gyfle i fod yn gynhwysol ac estyn allan i'r rhwydweithiau Saesneg.
- C.Ff.I. yn derbyn canmoliaeth uchel mewn sawl ardal am gynnal cyfleoedd i ieuencid gynnal digwyddiadau a rhwydweithiau Cymraeg bywiog a chryf. At hynny, C.Ff.I. yn gwneud gwaith estyn-allan a phontio effeithiol mewn ardaloedd llai Cymraeg eu hiaith.
- Teithiau i Wersylloedd yr Urdd yn cael eu gwerthfawrogi yn y Dwyrain.
- Ymweliadau gan yr Eisteddfod Genedlaethol yn ysgogi llawer o weithgaredd – angen buddsoddi a chynllunio dilyniant ar ôl ymweliad yr ŵyl.
- Arweiniad gan benaethiaid ysgolion lleol yn allweddol.
- Y cynllun Ma' Dy Gymraeg Di'n Grêt yn effeithiol yn lleol.
- Angen buddsoddiad a chynllunio ar gyfer cynnal gweithgareddau lleol.

4.3.4 Ymlyniad unigolion a grwpiau at y Gymraeg:

- Ble ceir balchder ac angerdd dros y Gymraeg fel rhan greiddiol o hunaniaeth unigol a chymdeithasol gwelir dyncwch.
- Aelwydydd Cymraeg sy'n rhan o rwydweithiau Cymraeg yn cynnal 'normau' cymdeithasol o ran defnyddio'r Gymraeg.
- Ymlyniad teuluol a chymdeithasol at ardal yn parhau'n gaffaeliad.
- Y Gymraeg yn ffynnu pan mae pobl yn gweld pwrpas economaidd a chymdeithasol iddi.

4.4 **Beth yw'r heriau sy'n wynebu'r Gymraeg yn eich ardal chi?**

4.4.1 Newidiadau cymdeithasol a symudoledd poblogaeth:

- Allfudo pobl ifanc o gymunedau gwledig a'r cymoedd i chwilio am addysg uwch, gwaith a gyrfaeodd – hynny'n golygu colli siaradwyr hyderus ac arweinwyr.
- Mewnfudo gan bobl hŷn – llawer heb ddiddordeb yn y Gymraeg – yn gwanhau'r cyfleoedd i siarad Cymraeg yn gymdeithasol yn yr ardal.
- Mewnfudo arwyddocaol o Ddwyrain Ewrop mewn ambell ardal.
- Strwythurau traddodiadol lleol yn dadfeilio wrth i gymunedau daearyddol wynebu newid.
- Egwyddor gwirfoddoli yn gwanhau wrth i bwysau gwaith gynyddu.
- Yn yr ardaloedd dwyreiniol mae daearyddiaeth a diffyg dwysedd yn her allweddol.
- Diffyg cefnogaeth i ddysgwyr 'groesi'r bont' a chymhathu i rwydweithiau lleol.

4.4.2 Economi a thai:

- Diffyg gwaith amrywiol ac o ansawdd sy'n rhoi gwerth ar y Gymraeg.
- Diffyg tai fforddiadwy.
- Diffyg cydnabyddiaeth o'r Gymraeg fel sgil yn y sector preifat.

4.4.3 Diffyg hyder, hyfedredd a defnydd:

- Diffyg trosglwyddo iaith mewn teuluoedd.
- Nodwyd bod agweddau negyddol ymysg pobl ifanc, mewnfudwyr a'r boblogaeth Gymraeg yn gyffredinol yn her allweddol.
- Diffyg cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r ysgolion.
- Sgiliau pobl ifanc yn gwanhau wrth fynd drwy'r system addysg.
- Ysgolion nad ydynt yn ymestyn allan i'r gymuned i gynnal y Gymraeg ac ysgolion cyfrwng Saesneg nad ydynt yn hyrwyddo'r Gymraeg.
- Diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth dderbyn gwasanaethau ac, o ganlyniad, diffyg hyder i fentro defnyddio'r gwasanaethau sydd ar gael.
- Diffyg offer cyfieithu ar y pryd mewn sefyllfaoedd anffurfiol lleol.
- Mudiadau yn troi o hysbysebu'n Gymraeg i hysbysebu'n ddwyieithog heb angen.
- Peryglon o gysylltu'r Gymraeg â diwylliant dosbarth canol yn unig.

4.4.4 Y diwylliant Eingl-Americanaidd cyfryngol:

- Cyfryngau Cymraeg yn cystadlu yn erbyn holl rym rhyngwladol a dylanwad y cyfryngau Eingl-Americanaidd.
- Diffyg gwasg Gymraeg a Chymreig.
- Diffyg presenoldeb y Gymraeg yn y byd digidol/cyfryngol/TG.
- Normau cymdeithasol i ddefnyddio Saesneg yn gryf iawn.
- Y diwylliant Eingl Americanaidd cyfryngol yn milwrio yn erbyn gwerthoedd sy'n hyrwyddo cymryd cyfrifoldeb unigol a chymunedol dros iaith a diwylliant.

4.4.5 Diffyg gweledigaeth a chynllunio strategol:

- Gorddibyniaeth ar y sector addysg i atgynhyrchu siaradwyr.
- Polisiâu addysg gwan yn llestair.
- Nifer o gynghorau sir yn methu cynllunio'n effeithiol ar gyfer y Gymraeg.
- Diffyg prif-ffrydio'r Gymraeg ar draws adrannau llywodraeth leol a diffyg gwerthfawrogiad o effaith polisiâu a gweithgareddau awdurdodau lleol ar y Gymraeg yn lleol.
- Diffyg cyllid ac adnoddau dynol i fynd at y gwaith.
- Polisi pwrcasu cyhoeddus yn milwrio yn erbyn cwmnïau o Gymru.
- Angen i'r Llywodraeth osod esiampl o ran gweithredu fel sefydliad.

4.5 **Sut mae annog a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd?**

- Twf yn gwbl allweddol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r manteision a rhoi cefnogaeth – angen dilyniant i Twf.
- Angen cefnogi rhieni i gefnogi eu plant:
 - dilyniant i Twf,
 - drwy'r ysgolion, a
 - mentoriaid lleol.
- Codi hyder pobl yn eu hiaith 'pob dydd':
 - MDGDG,

- cynlluniau ailgydio yn y Gymraeg.
- O sefydlu canolfannau gwybodaeth a gweithgaredd Cymraeg – cyfle i ddarparu cefnogaeth benodol i deuluoedd
- Angen mwy o Gymraeg mewn gwasanaethau teulu a gwasanaethau hamdden + prif-ffrydio'r Gymraeg o fewn cynlluniau megis Dechrau'n Deg.
- Marchnata mwy ar gyrsiau megis 'Cymraeg i'r Teulu' a 'Cymraeg o'r Crud' a chynnig gwersi iaith i deuluoedd am ddim.
- Angen gwell darpariaeth gofal plant Cymraeg a mwy ohono.
- Marchnata addysg Gymraeg a sefydlu mwy o ganolfannau trochi.
- Angen mwy o deledu Cymraeg i blant.
- Mwy o Gymraeg ar BBC Wales ac ITV Wales er mwyn normaleiddio'r Gymraeg mewn cartrefi.
- Angen ymgyrch ymysg tadau i deuluoedd cymysg eu hiaith (Cymraeg/Saesneg).

Syniadau penodol:

- Amlygu llwyddiannau.
- Sefydlu 'Sialens Dysgu Cymraeg' ar batrwm 'Her Iechyd Cymru'.
- Creu 'ap' sy'n cynnig gwybodaeth ddefnyddiol i deuluoedd.
- Llywodraeth i anfon cylchgrawn hyrwyddo at bob teulu.
- Sefydlu mentoriaid lleol i gefnogi rhieni.
- Sefydlu cynllun 'Mabwysiadu Mam-gu'.
- Trefnu tripiâu teulu.
- Adolygu effaith cynlluniau megis Twf.
- Adolygu effaith gwaith y Canolfannau Cymraeg i Oedolion ar rieni/teuluoedd.

4.6 Sut mae cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc a chryfhau'r ymwybyddiaeth sydd ganddyn nhw am werth y Gymraeg trwy'r gyfundrefn addysg?

- Angen datblygu addysg ymwybyddiaeth iaith i bobl ifanc yn yr ysgolion.
- Angen addysgu iaith fel cyfrwng ac fel cerbyd diwylliannol – mwy na phwnc cyffredin.
- Angen cryfhau'r Cwricwlwm Cymreig a chryfhau dysgu hanes Cymru.
- Rhaid i ni addysgu disgyblion am y 'Pam' yn ogystal â'r 'Sut'.
- Angen datblygu cyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r dosbarth.
- Cynnal a datblygu ansawdd addysgu'r Gymraeg ar draws y sector.
- Angen gwella'r ddarpariaeth ail iaith.
- Creu perthynas rhwng dysgu Cymraeg a'r byd gwaith
- Gwella dilyniant drwy'r Cyfnodau Allweddol a thu hwnt.
- Angen i ysgolion estyn allan mwy i'r gymuned.
- Angen cysoni cefnogaeth i hwyrddyfodiaid.
- Angen i staff ddefnyddio Cymraeg achlysurol fel norm ymhob ysgol.
- Atal yr arferiad o bregethu a chosbi disgyblion am beidio â siarad Cymraeg – gan eu hannog i siarad Cymraeg yn lle hynny.
- Angen cefnogi rhieni i hybu eu plant i ddefnyddio'r Gymraeg gartref ac yn y gymuned.

Syniadau penodol

- Siarter Iaith Ysgolion Gwynedd yn fodel da.

- Cyngor Conwy yn dysgu o leiaf 30% o bynciau yn Gymraeg ar draws y sir yn fodel da arall.
- Angen mwy o swyddogion ieuenctid i bontio rhwng ysgol a chymuned.
- Angen gwrando mwy ar bobl ifanc.
- Angen cyfresi darllen deniadol ar gyfer 7-14 oed.
- Prosiectau chwaraeon buarth.
- Cynigiwyd noson gyflwyniadol i rieni plant BI 7 yn Ysgol Gyfun Maes-yr-yrfa fel model.
- Adolygu effaith y cynllun PCAI – Prosiect Cefnogi Arferion Iaith.

4.7 Sut mae cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc a chryfhau'r ymwybyddiaeth sydd ganddyn nhw am werth y Gymraeg trwy weithgareddau eraill?

- Cynnal a datblygu'r ddarpariaeth ieuenctid cyfrwng Cymraeg
- Datblygu mwy o gyfleoedd hamdden/chwaraeon/celfyddydol cyfrwng Cymraeg yn y ddarpariaeth brif ffrwd
- Cyflogi gweithwyr ieuenctid i bontio rhwng ysgol a chymuned
- Sicrhau hyfforddiant priodol i weithwyr ieuenctid/hamdden/chwaraeon/celfyddydol yn y prif ffrwd
- Defnyddio pobl ifanc i hyrwyddo'r Gymraeg yn lleol yn y gymuned.
- Defnyddio plant hŷn i hyrwyddo'r Gymraeg i blant iau.
- Sicrhau darpariaeth gwyliau Cymraeg
- Cynyddu cyllid gwaith ieuenctid Cymraeg
- Marchnata'r Gymraeg yn ddeniadol:
- Defnyddio *role models* a selebs
- Sicrhau fod y Gymraeg yn y byd technoleg newydd
- Gwneud y Gymraeg yn hwyl
- Amlygu'r pwrpas o siarad Cymraeg
- Creu 'ap' – digwyddiadur i ieuenctid

4.8 Sut mae gwella'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg drwy dechnoleg gwybodaeth a'r cyfryngau ac ati?

- S4C – canmoliaeth gyffredinol o'r cynnyrch diweddar, canmoliaeth i Cyw a rhaglenni materion cyfoes.
- Radio Cymru – angen mwy nag un sianel i ddiwallu anghenion amrywiol y gynulleidfa – ar y we efallai.
- Golwg 360 – cadarnhaol. Angen datblygu mwy o wasg ddigidol, gan gynnwys papurau bro digidol.
- Angen cynyddu presenoldeb y Gymraeg ar y cyfryngau Saesneg: BBC Wales ac ITV Wales.
- Radio lleol.
- Canmoliaeth i Derek Brockway.
- Angen hyrwyddo S4C ar sianeli eraill.
- Sicrhau fod y Gymraeg yn ddiodyn ar TG safonol.
- Meddalwedd Cymraeg at ddibenion hamdden ac addysg.
- Gwasanaeth Cymraeg gan gwmnïau ffôn a band llydan.
- Darlledu Cymraeg anffurfiol cywir.
- Cynhyrchu cynnyrch teledu gwreiddiol Cymraeg – dim efelychu.
- Defnyddio Facebook i farchnata'n hanfodol.

- Angen datblygu meddalwedd darogan testun i ffônau poced.
- Cynyddu presenoldeb y Gymraeg ar raglenni'r DG.

Syniadau penodol

- Creu 'ap'iau Cymraeg.
- Meddalwedd darogan testun.
- Opsiynau S4C lleol.
- Meddalwedd dysgu Cymraeg trwy gemau *console* (ar gael mewn ieithoedd eraill).
- Amlhau sianelu radio a theledu.
- Cefnogi ymgyrch .cym.
- Cynyddu'r gronfa ddigidol newydd.
- Cefnogi Radio Beca.
- Defnyddio llyfrgelloedd lleol i hyrwyddo TG Cymraeg.

4.9 Sut mae gwella'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg ar gyfer pobl sy'n byw yn eich ardal chi?

- Angen mwy o arweiniad cadarn gan brif swyddogion cyrff cyhoeddus.
- Gwasanaethau iechyd cynradd yw'r flaenoriaeth – yn enwedig meddygon teulu.
- Teimlad fod y gwasanaeth iechyd drwyddi draw yn flaenoriaeth hefyd – ynghyd â'r sector gofal.
- Gwasanaethau eraill a nodwyd oedd: plismona lleol, hamdden, cyfleustodau, AAA, Cychwyn Cadarn a Dechrau'n Deg, CAB, hyfforddiant busnes a chluddiant cyhoeddus.
- Angen codi argaeledd a safonau gwasanaethau Cymraeg ynghyd â'u hyrwyddo ac annog defnydd.
- Angen cryfhau'r ddarpariaeth gan gyrff yn y sector preifat.
- Prinder dybryd o wasanaethau Cymraeg yn y Dwyrain.
- Angen cryfhau'r polisi caffael a chytundebau trydydd parti, gan y Llywodraeth a chyrff cyhoeddus.
- Angen sicrhau fod cyrff cyhoeddus yn gweithredu eu haddewidion o ran Cynlluniau Iaith Gymraeg – rhaid gofyn, o hyd, am wasanaeth Cymraeg mewn sawl man.
- Angen gwneud y Gymraeg yn fwy gweladwy mewn llefydd fel Merthyr.
- Angen hyrwyddo'r cysyniad o gwrteisi iaith.

Syniadau penodol

- Angen datblygu 'Cynllun Datblygu'r Gweithlu' cenedlaethol.
- Angen hyrwyddo cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd cyhoeddus.
- Gwasanaeth 'temps' Cymraeg/dwyieithog.

4.10 Sut mae cryfhau'r Gymraeg yn eich ardal chi o ran yr economi?

- Creu gwaith – amrywiol – yn lleol sydd yn rhoi gwerth ar y Gymraeg.
- Hwyluso dychweledigion i ddod nôl i'w bröydd yn y gorllewin.
- Creu gwell cyswllt rhwng addysgu sgiliau a chyfleoedd gwaith yn lleol – yn enwedig o du Cynghorau Sir.
- Hyrwyddo mentergarwch a busnesau Cymraeg.
- Potensial heb ei wireddu yn y byd twristiaeth.
- Angen cryfhau polisi pwrcasu i gefnogi cwmnïau Cymreig.

- Gweld y Gymraeg fel gwerth ychwanegol nid problem – hyrwyddo Punt y Ddraig.

Syniadau penodol

- Angen datblygu ‘Cynllun Datblygu'r Gweithlu’ cenedlaethol.
- Gwasanaeth cefnogi busnesau er mwyn datblygu eu defnydd o'r Gymraeg.
- Datblygu clystyrau o fusnesau Cymraeg mewn ardal/tref, e.e. Galeri.
- Ail agor glofeydd Cwm Gwendraeth.
- Sefydlu Bwrdd Datblygu Iaith ac Economi.
- Datganoli swyddi cyhoeddus o Gaerdydd.
- Hyrwyddo cynllun megis Llwyddo'n Lleol a Llwybrau.
- Angen sianelu arian cronfeydd melinau gwynt yn fwy strategol.
- Datblygu Ysbyty Machynlleth yn ganolfan iechyd Cymraeg/dwyieithog.
- Gosod amodau ieithyddol ar grantiau datblygu economaidd.
- Banciau Bro i gronni a dosbarthu cyfalaf lleol yn lleol.

4.11 Sut mae cryfhau'r Gymraeg yn eich ardal chi o ran y gwasanaethau a'r cyfleusterau lleol?

- Creu *hot spots* o wasanaethau/siopau/busnesau Cymraeg.
- Angen marchnata'r Gymraeg a'i manteision.
- Annog mentrau cydweithredol Cymraeg.
- Cyngor a grantiau i fusnesau sy'n defnyddio'r Gymraeg.
- Gwella darpariaeth Gymraeg theatrau lleol
- Hyrwyddo mentergarwch lleol ymysg siaradwyr Cymraeg.
- Gwella'r ddarpariaeth mewn canolfannau hamdden lleol.
- Datblygu Canolfannau Cymraeg mewn trefi Seisnig eu hiaith.
- Sicrhau gwasanaethau gofal a iechyd lleol Cymraeg.
- Angen sefydlu hwyluswyr bro.
- Angen hyrwyddo'r cysyniad o gwrteisi iaith.
- Tiliau hunanwasanaeth Cymraeg mewn archfarchnadoedd
- Gwella trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig.
- Gwell hyrwyddo ar wasanaethau a chyfleusterau lleol.
- Cryfhau rôl Cyngorau Cymuned a Thref.
- Buddsoddi cyfalaf mewn adfer adeiladau cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig i gryfhau'r economi lleol.
- Penodi ardaloedd i fod yn *Gaeltacht* Cymraeg.
- Sicrhau enwau Cymraeg ar strydoedd.

4.12 Sut mae cryfhau'r Gymraeg yn eich ardal chi o ran polisïau tai a cynllunio?

- Angen cryfhau NCT20
- Angen sicrhau asesiadau effaith ieithyddol (AEI) cadarn
- Cynorthwyo pobl ifanc i brynu tai
- Sicrhau fod datblygiadau yn ateb gofynion lleol
- Gosod amodau iaith ar ddatblygiadau Adran 106
- Moratoriwm ar ddatblygiadau tai
- Codi trethi ar ail gartrefi
- Rhoi mwy o bwyslais a hwyluso gosod tai yn lleol yn hytrach na thai ar gyfer gwyliau.
- Diwygio rheoliadau preswyl cyfredol parciau carafanau

- Lliniaru effaith y farchnad rydd mewn tai
- Hwyluso teuluoedd fferm i godi tai ar eu tir at ddefnydd y teulu
- Rhwystro codi tai hap-fasnachol sy'n denu mewnfudwyr.
- Codi ymwybyddiaeth ymysg mewnfudwyr.
- Annog cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol i gytundebu â chwmnïau lleol er mwyn cryfhau'r economi lleol.
- Ystyrir bod ehangu hawliau preswyl parciau carafanau yn fygythiad.

Syniadau penodol

- Uno awdurdodau cynllunio Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Chyngor Sir Penfro
- Sefydlu Arolygiaeth Gynllunio Gymreig
- Sefydlu asiantaeth annibynnol i weithredu AEI

4.13 Sut mae ysbrydoli a chefnogi mwy o bobl i ddysgu Cymraeg a dod yn rhugl?

- Angen cryfhau'r gefnogaeth i ddysgwyr:
 - Cynllun mentora cymunedol – defnyddio myfyrwyr (fel VSO)
 - Adfer CYD
 - Cynnal a datblygu arlwy dysgwyr S4C
 - Grymuso siaradwyr Cymraeg i gefnogi dysgwyr.
 - Sianel radio – gwefan – podlediadau i ddysgwyr
 - Plethu cefnogaeth gyda Chanolfannau Cymraeg fel Soar a Tŷ Tawe.
- Angen dysgu iaith mewn cyd-destun – gwaith, hamdden neu weithgaredd.
- Angen cyrsiau mwy anffurfiol a hyblyg
- Angen cyrsiau ar-lein neu gêm *console* dysgu Cymraeg ar gyfer pob lefel - gan gynnwys gloywi iaith.
- Cynnal a datblygu canolfannau trochi
- Datblygu'r gefnogaeth i gynorthwywyr Cyfnod Sylfaen
- Mawrygi dysgwyr e.e. 'Dysgwyr y Dyffryn' Dyffryn Nantlle
- Gostwng y rhifau trothwy ar gyfer cynnal dosbarthiadau yng nghefn gwlad
- Cymraeg yn y Gweithle a chynlluniau sabothol o'r gwaith
- Marchnata'r manteision a'r cyfleoedd llawer gwell.
- Gwersi am ddim
- Cynlluniau '*buddies*' iaith cynhwysfawr.
- Myfyrwyr ail iaith yn cynnig potensial ar gyfer siaradwyr newydd – er bod y cwrs byr yn wan
- Angen cyrsiau Cymraeg Sylfaenol i staff siopau a derbynfeydd.

4.14 Sut mae cryfhau'r Gymraeg yn eich ardal chi trwy ddulliau eraill?

- Angen marchnata'r Gymraeg a'i manteision.
- Peidio pregethu ond annog plant i siarad Cymraeg drwy ddulliau cyffrous.
- Addysgu pobl am eu hawliau ieithyddol.

4.15 Sut mae cynyddu'r cyfleodd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gweithleoedd?

- Angen arweiniad clir gan reolwyr fod modd defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.
- Angen marchnata manteision defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.

5. Iaith fyw: Y Gynhadledd Fawr

Daeth dros 160 o wahoddedigion i ddigwyddiad *Iaith fyw: Y Gynhadledd Fawr* yn Aberystwyth ar 4 Gorffennaf 2013. Roedd y 160 yn drawstoriad cyffredinol o wahanol ddiddordebau a rhan-ddeiliaid:

- Mudiadau hyrwyddo'r Gymraeg
- Grwpiau pwyso
- Cyrff cyhoeddus
- Cynrychiolwyr awdurdodau lleol
- Myfyrwyr a disgyblion ysgol
- Cynrychiolwyr o'r grwpiau trafod lleol
- Y byd addysg
- Busnesau preifat
- Cyrff celfyddydol a'r maes chwaraeon
- Mudiadau gwirfoddol a chymunedol
- Swyddogion Llywodraeth Cymru

Ar sail blaenoriaethau'r grwpiau trafod lleol, gosodwyd dwy thema i'r cynadledwyr eu trafod:

- Sut orau i gefnogi cymunedau a rhwydweithiau Cymraeg:
 - o ran yr economi, ac
 - o ran addysg a'r gymuned leol.
- Sut orau i gefnogi unigolion i fyw eu bywydau yn Gymraeg:
 - o ran codi ymwybyddiaeth, hyder a rhuglder, ac
 - o ran gwasanaethau i unigolion.

Darllledwyd pedair ffilm ar y themâu uchod i ysgogi trafodaeth. Roedd y ffilmiau yma'n gasgliad o sylwadau gan unigolion amrywiol iawn eu cefndir o ardal Caernarfon, Aberystwyth, Pontyberem a Pont-y-pŵl – rhai'n aelodau o'r grwpiau trafod lleol a rhai yn aelodau o'r cyhoedd.

At hynny, cafwyd anerchiadau allweddol ar y ddwy brif thema gan Cyng. Dyfed Edwards, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac Owain Gruffydd, Prif Weithredwr Menter Bro Dinefwr. Roedd anerchiadau'r ddau gyfrannwr yn hefyd fodd i ysgogi myfyrion a thrafod.

Bu'r cynadledwyr yn trafod mewn grwpiau o 10 ar fyrddau crwn gan arweiniad hwyluswyr penodol a oedd yn cofnodi ac yn adrodd yn ôl ar y trafod. Crynhown ffrwyth y trafodaethau hynny isod dan y gwahanol themâu.

5.1 Thema 1: Cefnogi cymunedau a rhwydweithiau Cymraeg

Trafodaeth 1: Yr Economi

Pa syniadau sydd gennych i'w cynnig o ran:

- cynyddu gwerth y Gymraeg fel sgil ar gyfer gwaith ar draws Cymru?

- cryfhau economi ardaloedd traddodiadol Gymraeg gorllewin Cymru a chynyddu'r gwerth economaidd a roddir ar y Gymraeg?
- cynorthwyo siaradwyr Cymraeg i aros, symud neu ddychwelyd i ardaloedd traddodiadol Gymraeg gorllewin Cymru?

5.1.1 Datblygu economaidd

- Angen polisïau datblygu economaidd sy'n cydnabod cyfleoedd i gryfhau a defnyddio'r Gymraeg ar draws Cymru. Angen sefydlu corff datblygu economaidd i hyrwyddo economi cefn gwlad Cymru a thrafnidiaeth gyhoeddus.
- Angen creu 'both' (*hub*) lleol er mwyn cynllunio, trosglwyddo gwybodaeth a datblygu economi Gymraeg-gysylltiol. Gyda hynny, angen datganoli swyddi ble mae'r Gymraeg yn arwyddocaol a chynllunio'n ofalus, e.e. cynllun Môn Menai.
- Angen codi proffil y Gymraeg yn y maes twristiaeth. Angen 'pecynnu'r profiad Cymraeg' ar gyfer twristiaid.
- Angen i gyrff cyhoeddus bwrcasu canran uwch o'u harchebion gan fusnesau Cymreig (a lleol) a chynnwys amodau ynglŷn â dwyieithrwydd ynghyd â rhoi amodau iaith ar grantiau busnes.
- Angen hyrwyddo mentergarwch ymhlith pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig – trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Gwella'r isadeiledd digidol i gryfhau'r economi gwledig.

5.1.2 Polisi a'r sector cyhoeddus

- Rhaid rhoi gwerth ar y Gymraeg yn y sector cyhoeddus ar draws Cymru – yn enwedig o fewn Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Mae angen gweithredu polisi iaith cryf ym mhob awdurdod lleol a phrif-ffrydio'r Gymraeg ar draws pob portffolio. Angen i brif swyddogion yn y sector cyhoeddus ymrwymo i'r Gymraeg.
- Angen hyrwyddo'r Gymraeg mewn gweithleoedd i greu hinsawdd ganiataol. Angen i weinyddiaeth fewnol Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ar draws Cymru ddilyn esiampl Cyngor Sir Gwynedd. Angen i Aelodau Cynulliad ddangos esiampl a normaleiddio'r Gymraeg yng ngwaith y Senedd.
- Angen sicrhau fod pob gweithiwr sector cyhoeddus yn derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith a'r cyfle i ddysgu Cymraeg yn y gweithle.
- Y carchar newydd yn Wrecsam yn gyfle i gynllunio cynnwys y Gymraeg o'r cychwyn o fewn y sefydliad.

5.1.3 Y Gymraeg fel sgil gwaith

- Angen i gyflogwyr gydnabod gwerth sgiliau Cymraeg – yn ariannol – ac ar sail Tystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg, gan hefyd dalu sylw i'r adroddiad ar 'Y Galw am Sgiliau Iaith Gymraeg'.
- Angen i swyddogion Gyrfa Cymru ac athrawon cyrsiau busnes hyrwyddo sgiliau Cymraeg mewn ysgolion.
- Mae'n hanfodol hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil ar draws pob sector yng Nghymru. Angen creu 'marchnad lafur' cyfrwng Cymraeg. Angen annog disgyblion a myfyrwyr i ddilyn rhai gyrfaoedd, e.e. cynllunio gwlad a thref, drwy ysgoloriaethau a bwrsariaethau.

5.1.4 Y Sector Preifat

- Angen gwasanaeth i gefnogi dwyieithrwydd busnesau bychain lleol – a hyrwyddo'r cyfleoedd Cymraeg.

- Angen datblygu a chysoni gwasanaethau Cymraeg banciau'r stryd fawr, archfarchnadoedd a siopau cadwyn mawrion.
- Angen sefydlu gwobrau busnes Cymraeg.

5.1.5 Is-adeiledd cymdeithasol

- Angen cefnogi neuaddau pentref ac ysgolion bychain mewn ardaloedd gwledig. Angen diogelu adeiladwaith cymdeithasol cymunedau gwledig – tafarndai, siopau ac ati.
- Angen creu ardaloedd byrlymus yn economaidd a chymdeithasol.

5.1.6 Tai a chynllunio

- Angen asesu effaith ieithyddol datblygiadau a chyhoeddi NCT 20 newydd ar fyrder.
- Angen hyrwyddo tai fforddiadwy i bobl ifanc – o bosibl dan gynllun Adran 106.
- Angen gosod tai cymdeithasol i bobl leol.

5.2 Thema 1: Cefnogi cymunedau a rhwydweithiau Cymraeg

Trafodaeth 2: Addysg a chymuned

Pa syniadau sydd gennych i'w cynnig o ran:

- cryfhau lle'r Gymraeg yn y byd addysg ar draws Cymru?
- cynyddu gweithgareddau cymdeithasol Cymraeg yn lleol?
- cryfhau cyfleusterau a gwasanaethau lleol a all gyfrannu at barhad a datblygiad cymunedau a rhwydweithiau Cymraeg?

5.2.1 Addysg ffurfiol - cyffredinol

- Angen hyrwyddo manteision dwyieithrwydd ymysg disgyblion.
- Angen dysgu'r rhesymau dros 'pam' siarad Cymraeg yn ogystal a 'sut' i siarad Cymraeg. Angen cwricwlwm Cymreictod a chysiau ymwybyddiaeth iaith.
- Angen creu hinsawdd gymdeithasol Gymraeg/ddwyieithog o fewn pob ysgol, e.e. Radio Bro Gwaun.
- Angen astudio mwy o hanes Cymru yn yr ysgolion.
- Dylai pob disgybl dderbyn rhywfaint o'i addysg drwy'r Gymraeg.
- Llywodraeth Cymru i fabwysiadu polisi addysg Cyngor Gwynedd.
- Dylai pob ysgol gynradd fod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

5.2.2 Cymraeg fel ail iaith neu iaith gyntaf

- Angen gwella'r ddarpariaeth i ddysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Addysg ail iaith yn fethiant – angen ei ddileu. Angen 'continwmm' dysgu iaith Cymraeg dylid ei dysgu – nid 'ail iaith'. Angen polisi dewrach.
- Angen neilltuo mwy o amser i ddisgyblion ddysgu Cymraeg a dechrau dysgu Cymraeg yn iau.
- Angen hyrwyddo addysg drochi – yn enwedig o'r Cyfnod Sylfaen a chanolfannau trochi. Hefyd mwy o gefnogaeth i hwyr ddyfodiaid.
- Angen gwersi Cymraeg mwy modern – newid y *syllabus*, e.e. dysgu sut mae creu e-bost busnes yn Gymraeg.

- Dylai pob disgybl wneud TGAU fel pwnc llawn.
- Angen cyflwyno dwyieithrwydd fel sgil allweddol (yn hytrach na Saesneg neu Gymraeg).
- Mae mantais o ran canlyniadau TGAU i ddisgyblion adael 'iaith gyntaf' am 'ail iaith'.

5.2.3 Athrawon

- Angen sicrhau digon o athrawon dwyieithog.
- Angen datblygu'r sgiliau addysgu cyfrwng Cymraeg sydd gan athrawon yn ystod eu hyfforddiant cychwynnol.
- Angen gosod trothwy sgiliau iaith i bob athro.
- Angen darparu gwersi Cymraeg am ddim i athrawon.

5.2.4 Rhieni

- Angen hyrwyddo gwerth y Gymraeg ymysg rhieni a darparu fwy o wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd o fewn yr ysgol a sut i gefnogi eu plant gartref.
- Gallai Cylchoedd Meithrin gynnig gwasanaethau cefnogol i rieni hefyd.

5.2.5 Addysg bellach ac uwch

- Angen datblygu cyrsiau addysg 16+ yn y Gymraeg, e.e. modiwlau dwyieithog yng nghyrsiau BTEC, NVQ, graddau ac ati fel bod y derminoleg gwaith gan y myfyrwyr.
- Angen ystyried anghenion Cymru wrth gynllunio niferoedd myfyrwyr AU. Dylai myfyrwyr o Gymru gael blaenoriaeth ym Mhrifysgolion Cymru.
- Eisteddfod Genedlaethol i ehangu i gynnwys cystadlaethau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg, e.e. trin gwallt.

5.2.6 Addysg cyfrwng Cymraeg

- Angen hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg.
- Angen ymateb i'r galw am addysg Gymraeg. Angen sicrhau llefydd digonol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Angen sicrhau dilyniant mewn addysg Gymraeg.
- Dylid gosod addysg Gymraeg yn 'norm' sydd rhaid 'optio allan' ohono.
- Angen gwella'r ddarpariaeth o adnoddau addysg cyfrwng Cymraeg.
- Angen cryfhau'r Gymraeg fel iaith y buarth.
- Angen creu cyswllt rhwng dysgu Cymraeg yn yr ysgolion a'r farchnad lafur leol.
- Y rheidrwydd i deithio er mwyn sicrhau addysg Gymraeg yn dadwreiddio'r Gymraeg o'r gymuned ddaearyddol.

5.2.7 Cyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio Cymraeg

- Angen clymu gweithgareddau datblygu cymunedol a hyrwyddo'r Gymraeg law yn llaw. Angen creu bwrwm cymdeithasol Cymraeg, hyrwyddo mentergarwch lleol a datblygu arweinwyr cymunedol i wneud hynny trwy fodelau 'gwaelod i fyny', e.e. Theatr Felin-fach.
- Mae angen clybiau gweithgaredd Cymraeg yn lleol – yn enwedig i bobl ifanc, e.e. theatrau ieuenctid. Angen i awdurdodau lleol ddarparu, gan beidio â dibynnu cymaint ar yr Urdd a C.Ff.I.. Angen atgyfnerthu addysg Gymraeg a gweithgareddau cymdeithasol i blant a ieuenctid.

- Hamdden a chwaraeon yn faes allweddol. Angen hyfforddwyr cyfrwng Cymraeg.
- Angen adeilad o fewn cymunedau lleol i fod yn ffocws i weithgareddau Cymraeg (boed neuadd, dafarn neu ganolfan) – a chefnogaeth iddyn nhw.
- Angen llwyfan/cyfrwng i rannu arferion da o ran hybu'r Gymraeg yn lleol.
- Angen cynnwys lles y Gymraeg yn rhan amlycach o geisiadau am arian Ewropeaidd.
- Awgrymu disodli Gwobr Dug Caeredin gyda Gwobr Gymreig. Creu bagloriaeth i glymu disgyblion â gweithgareddau Cymraeg, e.e. papurau bro, C.F.F.I., eisteddfodau ac ati.
- Angen gwell cydweithio rhwng mudiadau Cymraeg.
- Angen holi pobl ifanc pa weithgareddau garen nhw eu cael yn y Gymraeg.

5.3 Thema 2: Cefnogi unigolion i fyw eu bywydau yn y Gymraeg

Trafodaeth 3: Codi ymwybyddiaeth, hyder a rhuglder

Pa syniadau sydd gennych i'w cynnig o ran:

- codi hyder siaradwyr Cymraeg a chynyddu eu defnydd o'r Gymraeg?
- cynyddu'r nifer sy'n dysgu Cymraeg a'u cynorthwyo i ddod yn rhugl?
- cynyddu ymwybyddiaeth pobl Cymru o werth y Gymraeg a'u balchder ohoni?

5.3.1 Creu'r amodau

- Angen cyrsiau ymwybyddiaeth iaith i bawb yn enwedig mewnfudwyr a disgyblion ysgol.
- Angen mwy o gyfleoedd cymdeithasol i siarad Cymraeg i greu'r cylch: Defnydd – Rhuglder – Hyder.
- Hyrwyddo'r Gymraeg fel 'norm' mewn cyd-destunau cymdeithasol dwyieithog, e.e. C.F.F.I..
- Angen creu hinsawdd gadarnhaol gefnogol mewn gweithleoedd ac arweiniad cadarn gan reolwyr, e.e. Heddlu Gogledd Cymru.
- Angen canolfannau Cymraeg mewn ardaloedd llai Cymraeg, e.e. Tŷ Tawe, Saith Seren.
- Angen cynllunio yn well i sicrhau a chynnal gwaddol ar ôl ymweliad Eisteddfod Genedlaethol.
- Normaleiddio'r defnydd o offer cyfieithu yn gymdeithasol.
- Angen canolbwyntio ar newid arferion (habits).

5.3.2 Hwyluswyr

- Angen swyddogion ieuenctid Cymraeg ym mhob sir.
- Angen cefnogi diwylliant ieuenctid byrlymus.
- Angen gweithio gyda chyn-ddisgyblion ysgolion Cymraeg nad ydynt yn defnyddio'r Gymraeg.
- Angen sefydlu broceriaid iaith lleol i godi hyder.

5.3.3 Marchnata a hyrwyddo

- Angen hyrwyddo ac annog unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg trwy ddulliau marchnata, e.e. Dechrau pob sgwrs yn Gymraeg, Defnyddia dy Gymraeg – faint

bynnag sy' 'da ti, Ma' Dy Gymraeg Di'n Grêt ac ati – gyda chefnogaeth a mentoriaid.

- Angen marchnata'r cyfleoedd i ddefnyddio Cymraeg. Hyn wedi lleihau ers difflaniad Bwrdd yr Iaith.
- Angen hyrwyddo'r bathodyn – 'Dwi'n siarad Cymraeg'.
- Mae angen ymgyrch i hyrwyddo 'Cymraeg Clir'.
- Dylid dathlu tafodieithoedd Cymru.
- Dylai arwerthwyr tai hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r Gymraeg trwy gymhelliant y Llywodraeth.

5.3.4 Cymraeg i oedolion

- Angen darparu CiO am ddim i bawb – yn enwedig yn y gweithle.
- Angen cyrsiau CiO mwy hyblyg.
- Angen datblygu dulliau dysgu ar-lein.
- Angen i gyrsiau ganolbwyntio ar gyrraedd rhuglder ac annog defnydd.
- Angen cynnig cyrsiau Cymraeg am ddim i rieni sy'n dewis addysg Gymraeg i'w plant – angen i ysgolion a CiO gydweithio. Yn yr un modd, mae angen darparu cyrsiau Cymraeg i'r Teulu am ddim a'u cyplysu â gweithgareddau cymdeithasol.
- Angen symud o fodel gwirfoddol i fodel gorfodol o ddysgu Cymraeg yng nghyswllt gwaith a gyrfa, e.e. Heddlu Gogledd Cymru.
- Angen i siaradwyr Cymraeg gefnogi dysgwyr (angen hyfforddiant ar siaradwyr Cymraeg ar dechnegau pontio a chefnogi dysgwyr).
- Datblygu dulliau dysgu cymdeithasol a chreu gwell cyswllt rhwng dosbarthiadau o ddysgwyr a mudiadau Cymraeg lleol.
- Angen cynyddu cynlluniau 'blwyddyn mas', cynlluniau sabothol a rhyddhau staff i ddysgu Cymraeg.
- Angen i fathodynau 'Dwi'n dysgu Cymraeg' fod ar gael am ddim.
- Angen i siaradwyr Cymraeg beidio â bod yn feirniadol o safon Cymraeg pobl eraill.

5.3.5 Hyfforddiant

- Angen cyrsiau meithrin hyder megis y cwrs 'Sgiliau Cymraeg i Reolwyr'.
- Angen mwy o gyrsiau megis 'Blas ar Gymru' (i fewnfudwyr) a 'Ma' Dy Gymraeg Di'n Grêt' (i rieni di-hyder).
- Angen gwersi gloywi iaith perthnasol i'r gwaith, e.e. SWALEC.
- Angen teilwra hyfforddiant Cymraeg llafar ar gyfer tasgau gwaith, e.e. siopau.

5.3.6 Ehangu peuoedd

- Angen hyrwyddo'r Gymraeg mewn peuoedd newydd.
- Sicrhau bod y Gymraeg yn rhan o'r maes technoleg yn hynod bwysig.
- Angen i bapurau bro ehangu i gyfryngau gwahanol.

5.3.7 Ymchwil

- Angen i Gyfrifiad Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon holi'n fanylach am sgiliau Cymraeg.
- Angen comisiynu ymchwil i'r rhesymau pam fod pobl ifanc yn gweld y Gymraeg yn amherthnasol.

5.4 Thema 2: Cefnogi unigolion i fyw eu bywydau yn y Gymraeg

Trafodaeth 4: Gwasanaethau i unigolion

Pa syniadau sydd gennych i'w cynnig o ran:

- cynyddu'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg a'r defnydd ohonynt?
- lledaenu apêl y Gymraeg ar y cyfryngau, mewn technoleg newydd ac o ran diwylliant poblogaidd?
- cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle?

5.4.1 Gwasanaethau

- Gosod gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol fel y modd diofyn – ac 'optio allan' i dderbyn gwasanaeth Saesneg. Cyswllt cyntaf yn hollbwysig. Er hynny, angen hyblygrwydd rhwng y llafar a'r ysgrifenedig.
- Sicrhau ansawdd gwasanaethau Cymraeg yn ganolog.
- Angen llawer mwy o hyrwyddo ar y gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael yn barod, e.e. Cymorth.com
- Angen annog a hyrwyddo defnydd o wasanaethau gan siaradwyr Cymraeg e.e. ymgyrch Cymraeg yn Gyntaf.
- Angen blaenoriaethu gwasanaethau awdurdodau lleol, gwasanaethau gofal a'r sector iechyd, cyfleustodau.
- Polisiâu recriwtio cadarn sy'n sicrhau gwasanaethau Cymraeg. Cydnabyddiaeth o'r Gymraeg fel sgil. Rheolwyr ymwybodol.
- Angen cefnogi 'Pencampwyr y Gymraeg'.
- Dylid canolbwyntio ar sefydlu arferion ieuentid wrth ddefnyddio gwasanaethau.
- Angen bod yn gadarn wrth gynnwys y Gymraeg mewn prosesau caffael.
- Llywodraeth Cymru i fodelu arferion da o ran darparu gwasanaethau Cymraeg.
- Angen sicrhau fod gwasanaethau Cymraeg ar gael ar draws Cymru.
- Hyrwyddo hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.
- Ail gyflwyno cyfieithu am ddim i'r sector preifat a'r sector cymunedol.
- Dylai'r Gymraeg cael blaenoriaeth ar arwyddion drwy Gymru gyfan.

5.4.2 Y cyfryngau a thechnoleg newydd

- Angen hyrwyddo a marchnata'r hyn sydd ar gael yn Gymraeg yn barod.
- Croeso i'r Gronfa Ddigidol, angen mwy o fuddsoddiad eto.
- Angen datblygu 'apiau' Cymraeg perthnasol.
- Angen hyrwyddo'r Gymraeg ymysg rhwydweithiau cymdeithasol digidol.
- Sicrhau'r Gymraeg fel dewis safonol ar dechnoleg newydd.
- Rhoi mwy o gynnwys ar bob platform, gan gynnwys 'You-Tube'.
- Dylai'r Gymraeg fod yn ddiofyn yn syth ar bob gwefan.
- Angen datblygu meddalwedd darogan testun Cymraeg i ffônau poced.
- Cefnogi cwmnïau i ddarparu cyngor TGCh yn Gymraeg.
- Angen sybsideiddio llyfrau a chylchgronau Cymraeg + e-lyfrau.

5.4.3 Radio a theledu

- Cydnabod bod Radio Cymru ac S4C yn gorfod apelio at ystod eang o ddiddordebau ac oedran – problem.
- Angen cynyddu presenoldeb y Gymraeg a materion Cymreig ar sianelu radio a theledu Saesneg. Canmol ar Derek Brockway.

- Dylid datganoli'r cyfrifoldeb dros ddarlledu i Gymru.
- Angen cylchgronau, rhaglenni teledu a ffilmiau Cymraeg 'cŵl' i bobl ifanc.
- Angen hyrwyddo bandiau, gigs a gwyliau Cymraeg.
- Gwneud defnydd o 'selebs' Cymraeg.
- Angen mwy o'r C.Ff.I. ar S4C.
- Angen cynhyrchu rhaglenni teledu a ffilmiau unigryw Gymraeg.
- Angen slot adolygu ar Radio Cymru fel sydd ar Radio 1.
- S4C ddim yn cynnig llawer i'r ystod oedran 14-25 oed – angen ymchwil.
- Canmol Cyw (S4C) ond angen dilyniant – trwy gyfieithu rhaglenni tramor efallai.

5.4.4 Gweithleoedd dwyieithog

- Sicrhau polisiau Cymraeg yn y gweithle a derbyn arweiniad o'r top.
- Pob corff cyhoeddus i osod meddalwedd Cymraeg yn ddiodyn ar gyfrifiaduron.
- Dylai Cyngor Ceredigion weinyddu yn y Gymraeg.

5.4.5 Cyffredinol

- Angen hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod yn gyffredinol.
- Gwerthfawrogyd presenoldeb y Prif Weinidog am ddiwrnod cyfan.

5.5 Y Drafodaeth ar Twitter

Yn ogystal â'r 160 a ddaeth i'r gynhadledd yn Aberystwyth bu dros 200 o bobl eraill yn gwyllo'r darllediad byw o'r gynhadledd ar-lein. At hynny, bu Radio Cymru yn darlledu'n fyw o'r gynhadledd a chafwyd trafodaeth fywiog ar raglenni newyddion a materion cyfoes Radio Cymru ac S4C yn ystod y dydd.

Roedd cyfle wedi ei greu hefyd i unigolion gyfrannu at y drafodaeth a'r bwrlwm drwy anfon negeseuon i gyfeiriad canolog drwy gyfrwng ebost neu Twitter neu ddulliau cyffelyb. Roedd modd dilyn y ffrwd o sylwadau hynny ar y llwyfannu technolegol perthnasol. Dangoswyd nifer o'r negeseuon hynny ar wal wybodaeth (*i-wall*) o fewn neuadd y gynhadledd, gan ychwanegu at y drafodaeth yno.

Cafwyd dros 800 o gyfraniadau i'r drafodaeth ar Twitter yn ystod y dydd – yn sylwadau uniongyrchol, ymatebion i sylwadau a wnaed yn y gynhadledd ei hun ac ymatebion i sylwadau Trydarwyr eraill. Bu hefyd yn gyfrwng i ysgogi sgysiau trafod ymhlith y Trydarwyr eu hunain.

Roedd y drafodaeth hon ar Twitter yn dueddol o droi o gwmpas y themâu isod, gan ategu llawer o'r safbwyntiau a fynegwyd gan y cynadledwyr yn Aberystwyth:

- Addysg: Addysg, heb os, gynhyrchodd y drafodaeth helaethaf. Roedd prif drywyddau'r drafodaeth honno fel a ganlyn:
 - Yr angen i'r system addysg gynyddu'r raddfa y mae'n cynhyrchu siaradwyr newydd.
 - Yr angen i ddiwygio'r drefn Cymraeg fel ail iaith, gan gynnwys ystyried diddymu'r cwrs byr.
 - Yr angen i gryfhau dilyniant mewn addysg cyfrwng Cymraeg drwy gyfyngu ar gyfleoedd i adael y ffrwd addysg Gymraeg.
 - Yr angen i gryfhau sgiliau Cymraeg athrawon.

- Yr angen i ddatblygu dulliau mwy dychmygus a mentrus o ddysgu Cymraeg.
 - Yr angen i roi mwy o ystyriaeth i Addysg Bellach cyfrwng Cymraeg.
 - Yr angen i ddatblygu cefnogaeth i rieni ddysgu Cymraeg.
 - Yr angen i godi pontydd rhwng siaradwyr Cymraeg cysefin a Chymry di-Gymraeg drwy gyfrwng ymwybyddiaeth iaith.
- Gwasanaethau cyhoeddus: Arwyddocâd darparu gwasanaethau cyhoeddus Cymraeg cyflawn, yn enwedig gan awdurdodau lleol a'r sector iechyd a gofal.
 - Iaith gymunedol: Yr angen i gefnogi ymdrechion i gynnal y Gymraeg fel iaith gymunedol – yn enwedig yn yr ardaloedd hynny yn y gogledd a'r gorllewin sy'n wynebu heriau, ymysg pobl ifanc ac yn y maes hamdden a chwaraeon.
 - Materion economaidd: O ran materion economaidd cafwyd croeso cynnes i anerchiad Dyfed Edwards a'i brif bwynt ynglŷn â chynllunio'n gyfannol o blaid y Gymraeg o ran economi, y ddarpariaeth dai lleol a bwrlwm cymdeithasol. Nodwyd yr angen i ddatblygu dealltwriaeth well o gyswllt y Gymraeg â materion economaidd, e.e.:
 - buddiannau hyrwyddo hunangyflogaeth, busnesau bychain a'r sector amaeth i'r Gymraeg;
 - potensial TG er datblygu a hyrwyddo busnesau Cymraeg a'r Gymraeg mewn busnes;
 - gwerth y Gymraeg i'r economi, gan gynnwys fel sgil gwaith;

Mynegwyd y farn hefyd y dylid pwysu mwy ar gwmnïau mawrion i ddefnyddio'r Gymraeg.

- Cymraeg i Oedolion: Mynegwyd pryder am effeithiolrwydd y drefn Cymraeg i Oedolion bresennol.
- Marchnata: Roedd teimlad fod angen marchnata'r Gymraeg yn fwy egnïol.
- Cyfyngau a TG: Soniodd nifer am yr angen am sicrhau arlwy teledu a radio deniadol, gan hefyd gynnwys y Gymraeg ar sianelu heblaw S4C a Radio Cymru yn unig. Hefyd, fod angen mwy o gynnyrch a chynnwys TG yn y Gymraeg.
- Adnoddau: Nodwyd yr angen i sicrhau adnoddau ariannol digonol i gyflawni'r heriau sy'n wynebu'r Gymraeg.

6. Cyfraniadau drwy ddulliau amrywiol eraill

6.1 Cyfraniadau e-bost, llythyron, galwadau ffôn

Derbyniwyd 19 cyfraniad ar e-bost, 3 darn o ohebiaeth a 3 galwad ffôn yn ystod y cyfnod ymgynghorol. Roedd y cyfraniadau ysgrifenedig yn amrywiol o ran sylwedd o ychydig frawddegau o sylwadau bachog i bapurau safbwynt manwl.

6.1.1 Materion strategol

Cafwyd nifer o sylwadau cyffredinol ynghylch pwysigrwydd gweithredu'n strategol o blaid y Gymraeg a'r farn fod angen, os am greu gwahaniaeth, i gynyddu'r gwariant ar y Gymraeg yn sylweddol o'r £8.8 miliwn cyfredol. Nodwyd fod angen prif-ffrydio buddiannau'r Gymraeg ar draws gweithgareddau Llywodraeth Cymru, gyda sylw hefyd yn nodi fod angen rhoi blaenoriaeth buan i atal y dirywiad fu yn sefyllfa'r Gymraeg yn Sir Gâr.

6.1.2 Iaith ac economi

Nodwyd fod economi gwan ardaloedd gwledig Cymru – gan gynnwys costau trafniadaeth uchel – yn fygythiad i'r Gymraeg. Dywedwyd bod diffyg swyddi amrywiol yng nghefn gwlad yn llesteirio hyfywedd y Gymraeg. O'r herwydd dylai ymdrechion i gryfhau'r economi gwledig fod yn flaenoriaeth. Dylai cynllunio economaidd ddwyn y Gymraeg yn ystyriaeth ganolog, gan sicrhau fod datblygiadau yn cryfhau'r Gymraeg, nid ei gwanychu.

Cynigiodd un cyfrannwr syniad penodol i sylw'r Llywodraeth, sef: creu pecyn o gymorth datblygu busnes cyfansawdd i fusnesau bychain gwledig a fyddai'n gwobrwyo'r defnydd o'r Gymraeg a chyflogaeth Gymraeg yn lleol.

Cyflwynwyd papur sylweddol ei gynnwys gan un o brif swyddogion y mentrau iaith, dan y teitl: 'Cynllun Marchnad Lafur Cyfrwng Cymraeg'. Mae'r papur yn amlinellu strategaeth sosio-economaidd i osod seiliau cadarnach i'r Gymraeg drwy:

- leihau allfudiad,
- adnabod y galw am wasanaethau Cymraeg,
- ehangu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg,
- cyplysu'r angen efo cyfleoedd gwaith a hyfforddiant, ac
- adnabod cyfleoedd economaidd.

6.1.3 Symudoledd poblogaeth

Roedd dygymod â symudoledd poblogaeth a goblygiadau'r mewnlifiad yn bwnc a gafodd gryn sylw. Roedd sylwadau yn cynnwys y farn fod angen rheoli datblygiadau codi tai yn llymach a'r angen i godi tai mewn ymateb i alw lleol yn hytrach na menter masnachol. Roedd galw hefyd am ymdrechion i addysgu a chymhathu mewnfudwyr i gymunedau Cymraeg traddodiadol y gorllewin.

6.1.4 Addysg

Roedd sylwadau ynghylch y gyfundrefn addysg yn adlewyrchu nifer o bwyntiau a wnaed eisoes, e.e. buddsoddi yn sgiliau iaith athrawon, cynyddu addysg cyfrwng Cymraeg, galw am gynnwys Ymwybyddiaeth Iaith o fewn ysgolion ynghyd â'r angen i ddysgu hanes y Gymraeg yn rhan o hanes Cymru a'r angen i ddiwygio'r gyfundrefn Cymraeg fel ail iaith.

6.1.5 Gweithgareddau cymdeithasol cyfrwng Cymraeg

Cafwyd nifer o sylwadau ynghylch yr angen i sicrhau gweithgareddau cymdeithasol, hamdden a chwaraeon cyfrwng Cymraeg; yn enwedig i blant a phobl ifanc.

6.1.6 Gwasanaethau cyfrwng Cymraeg

Cafwyd sawl sylw i'r perwyl y dylai gwasanaethau derbynfa a gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen fod ar gael yn Gymraeg. Awgrymodd nifer fod angen amlygu siaradwyr Cymraeg trwy fathodynau, arwyddion ac ati. Nodwyd hefyd fod angen annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg.

6.1.7 Siaradwyr newydd

Roedd un cyfrannwr yn awyddus i herio'r Prif Weinidog i fod yn fwy uchelgeisiol o ran cynyddu niferoedd siaradwyr newydd, gan ei annog i ddysgu gwersi o Wlad y Basg. Roedd cost dosbarthiadau yn ofid i un cyfrannwr, gan awgrymu y dylid cynnig nawdd i unigolion oedd eisiau mynychu dosbarthiadau dysgu Cymraeg.

Awgrymodd un cyfrannwr y dylid datganoli trefn y Canolfannau Cymraeg i Oedolion i lefel gymunedol gan greu 'pentrefi dysgu Cymraeg' lleol er mwyn cyplysu'r dysgu a gweithgareddau cymdeithasol lleol. Awgrymodd un arall y dylid sefydlu Clybiau Croesi'r Bont ar draws Cymru. Cyflwynodd cyfrannwr arall apêl debyg i gysylltu dysgu Cymraeg i Oedolion â strwythurau cymdeithasol lleol. Atodwyd papur safbwynt helaeth i sylw'r llywodraeth, papur a gyflwynwyd i sylw'r Grŵp Gorchwyl ar Gymraeg i Oedolion.

6.2 Y Fforwm Ar-lein

Agwedd lleiaf llwyddiannus y broses oedd y fforwm ar-lein. Roedd hi'n amlwg mai llenwi'r holiadur ar-lein oedd dewis y mwyafrif llethol a ymwelodd â gwefan *laith fyw: dweud eich dweud* i fynegi barn, o ddigon.

Un ar bymtheg o gyfraniadau gafwyd i'r fforwm a'r cyfan o dan y trywydd: *Beth yw'r heriau sy'n wynebu'r Gymraeg yn eich ardal chi?* Cafwyd 8 cyfraniad Cymraeg ac 8 yn Saesneg.

Y pwyntiau pennaf a nodwyd oedd:

- yr angen i gynyddu cyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio'r Gymraeg; annog mwy o oedolion i siarad Cymraeg; a'r

- angen i gynyddu ymdrechion i integreiddio dysgwyr a chefnogwyr i weithgareddau Cymraeg.

Cafwyd rhai sylwadau negyddol ar y trywydd Saesneg, yn eu plith:

- Gresynu wnaeth un cyfrannwr fod yna ymdrechion gan y Wladwriaeth i 'beiriannu' adferiad y Gymraeg ar draul agweddau eraill o fywyd cyhoeddus – economi, addysg, iechyd ac ati.
- Roedd eraill yn pryderu fod gormod o bwyslais ar y Gymraeg yn anfantais economaidd o ran denu cwmnïoedd a phobl broffesiynol o dramor.
- Roedd un arall o'r farn fod angen i'r Cynulliad dyfu asgwrn cefn a 'rhoi'r lobi iaith yn ei lle'.

* * *